


Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 17/2026

Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2026

Mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru: Astudiaeth Delphi – Atodiadau



This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru: Astudiaeth Delphi – Atodiadau

Awduron: Alma Economics



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru: Astudiaeth Delphi – Atodiadau. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 17/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/iechyd-democrataidd>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Emma Wallace

Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Enw'r tîm neu'r gangen: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Atodiad A – Rhestr Gyflawn o Ddangosyddion Iechyd Democrataidd sy'n deillio o'r Adolygiad Llenyddiaeth	5
Atodiad B – Fframwaith Asesu Ansawdd	22
Atodiad C – Perfformiad Dangosyddion yn Rownd 2 Delphi	24
Perfformiad dangosyddion dimensiwn etholiadol	24
Perfformiad dangosyddion dimensiwn cyfranogol	27
Perfformiad dangosyddion dimensiwn cydgynghorol	30
Perfformiad dangosyddion dimensiwn cydraddol	31
Perfformiad dangosyddion dimensiwn ymatebolrwydd sefydliadol	32
Perfformiad dangosyddion dimensiwn tryloywder a rhyddid y cyfryngau	35
Atodiad D – Trosolwg Dadansoddol o'r Chwe Dangosydd sydd ar y Rhestr Fer Derfynol...	38
Dangosydd 1	38
V-Dem.....	38
PEI	42
Dangosydd 2	43
Dangosydd 3	43
Dangosydd 4	43
Dangosydd 5	44
Dangosydd 6	44
Atodiad E – Adnoddau Ymchwil.....	48
Canllaw trafod ar gyfer y gweithdai cychwynnol i arbenigwyr.....	48
Holiadur rownd 1 Delphi - sgript	49
Holiadur 2 Delphi - sgript.....	61
Rhan 1	63
Rhan 2	73
Holiadur 3 Delphi - sgript.....	77

Rhestr o dablau

Tabl 1: Dangosyddion iechyd democrataidd a nodwyd yn ystod yr adolygiad llenyddiaeth, Ebrill 2025	5
Tabl 2: Fframwaith Asesu Ansawdd.....	22
Tabl 3: Dangosydd Etholiadol-A: Cystadleurwydd etholiadau. A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd.....	24
Tabl 4: Dangosydd Etholiadol-B: Uniondeb etholiadau: Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio pa mor hawdd yw cymryd rhan? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd.....	24
Tabl 5: Dangosydd Etholiadol-C: Uniondeb etholiadau: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i bleidleisio mewn etholiad? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	25
Tabl 6: Dangosydd Etholiadol-D: Uniondeb etholiadau: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	26
Tabl 7: Dangosydd Etholiadol-E: Cystadleurwydd etholiadau: A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	26
Tabl 8: Dangosydd Cyfranogol-A: Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol): Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	27
Tabl 9: Dangosydd Cyfranogol-B: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd..	27
Tabl 10: Dangosydd Cyfranogol-C: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd.....	28
Tabl 11: Dangosydd Cyfranogol-D: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi erioed wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y cyngor? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	29

Tabl 12: Dangosydd Cyfranogol-E: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth anffurfiol: Dinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	29
Tabl 13: Dangosydd Cydgynghorol-A: Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad rhesymegol mewn dadleuon (Senedd Cymru): A yw gwleidyddion yn rhoi cyfiawnhad clir a rhesymegol dros eu safbwyntiau polisi yn ystod dadleuon? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	30
Tabl 14: Dangosydd Cydgynghorol-B: Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru): A yw gwleidyddion yn cydnabod ac yn ymgysylltu â gwrthddadleuon neu safbwyntiau amgen a gyflwynir yn ystod dadleuon? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	30
Tabl 15: Dangosydd Cydgynghorol-C: Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru): A yw safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli'n deg, neu a ydynt yn cael eu hystumio neu eu camgyfleu i'w tanseilio? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	31
Tabl 16: Dangosydd Cydraddol-A: Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys ymhlith ymgeiswyr: Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	31
Tabl 17: Dangosydd Cydraddol-B: Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr: Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	32
Tabl 18: Dangosydd Sefydliadol-A: Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol: Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	32
Tabl 19: Dangosydd Sefydliadol-B: Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich cyngor/cynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	33
Tabl 20: Dangosydd Sefydliadol-C: Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich ardal leol? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	34

Tabl 21: Dangosydd Sefydliadol-D: Ymddiriedaeth dinasyddion yn y llywodraeth. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	34
Tabl 22: Dangosydd Tryloywder-A: Tryloywder y Llywodraeth: A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	35
Tabl 23: Dangosydd Tryloywder-B: Tryloywder y Llywodraeth: A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd.....	35
Tabl 24: Dangosydd Tryloywder-C: Rhyddid y cyfryngau: I ba raddau mae darparwyr cyfryngau'n rhydd i adrodd yn feirniadol ar y llywodraeth heb ofni cael eu sensro neu rywun yn dial arnynt? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd	36
Tabl 25: Dangosydd Tryloywder-D: Tryloywder y Llywodraeth: Ymatebolrwydd Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a chyfraddau llwyddiant. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd.....	37

Atodiad A – Rhestr Gyflawn o Ddangosyddion Iechyd Democrataidd sy'n deillio o'r Adolygiad Llenyddiaeth

Tabl 1: Dangosyddion iechyd democrataidd a nodwyd yn ystod yr adolygiad llenyddiaeth, Ebrill 2025

Dimensiynau Iechyd Democrataidd	Mesurau sydd ar gael yng Nghymru	Mesurau presennol nad ydynt ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd
Etholiadol (Etholiadau rhydd a theg a hawliau sifil cryf, yn adroddiad WCPP)	<u>Uniondeb etholiadau</u> Ddim ar gael <u>Cystadleurwydd etholiadau</u> Ddim ar gael <u>Mesurau diogelu hawliau sifil</u> Ddim ar gael	Bydd angen i bob dangosydd yn y dimensiwn hwn gael ei ddadansoddi a'i adolygu gan arbenigwyr, gan ei fod wedi'i seilio ar ffeithiau gwrthrychol yn hytrach na barn y cyhoedd. Yn fwy penodol: <u>Uniondeb etholiadau</u> Tegwch a thryloywder y broses etholiadol: • Cyfreithiau Etholiadol: "A yw'r cyfreithiau etholiadol yn deg i bob cyfranogwr gwleidyddol, gan gynnwys pleidiau llai ac ymgeiswyr annibynnol?" (Canfyddiadau o Uniondeb Etholiadau (PEI) 1; Freedom House A3) • Hygyrchedd y Broses Bleidleisio: "A gafodd y broses bleidleisio ei chyfleu'n glir i bob pleidleisiwr cymwys, gan sicrhau nad oedd unrhyw rwystrau sylweddol rhag cymryd rhan?" (PEI 2.1, 2.2) • Cyfran y boblogaeth sydd â'r hawl i bleidleisio: "Pa gyfran o ddinasyddion sy'n oedolion, fel y'i diffinnir gan statud, sydd â'r hawl gyfreithiol i bleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol?" (V-Dem v2x_suffr; Freedom House A3) • Cofrestru Pleidleiswyr a Chyfraddau Pleidleisio: "I ba raddau mae'r broses o gofrestru pleidleiswyr yn sicrhau cywirdeb a chynwysoldeb, a pha mor effeithiol oedd gwaith maes i

		grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli (anabl)?" (PEI 4_4; V-Dem v2elrgstry) • Tryloywder Cyfrif Pleidleisiau: "A oedd y gweithdrefnau cyfrif pleidleisiau yn dryloyw, yn ddiogel, ac yn rhydd o unrhyw ddylanwad allanol?" (PEI 8; V-Dem v2elirreg) • Canlyniadau Etholiad: A yw'r pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n colli yn derbyn canlyniad yr etholiad cenedlaethol hwn? A oedd gweithdrefnau effeithiol i ddinasyddion wneud cwynion am y broses etholiadol? (PEI 9, 10; V-Dem v2elaccept) <u>Cystadleurwydd etholiadau</u> • Opsiynau pleidleiswyr: "A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrllon rhwng ymgeiswyr?" (V-Dem v2elmulpar; PEI 8-4) • Cystadleurwydd: "A oes cyfle realistig i'r wrthblaid gael dylanwad drwy etholiadau? (Freedom House B2) • Sicrhau chwarae teg: "A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd?" (PEI 6; V-Dem v2eldonate, v2elfrcampv, 2elpdcamp, v2elpaidig) • Uniondeb Cyllid yr Ymgyrch: "Sut mae rheolau cyllid ymgyrchoedd yn cael eu gorfodi, ac a ydynt yn caniatáu ar gyfer cystadleuaeth deg?" (PEI, 7; V-Dem v2elpubfin) <u>Mesurau diogelu hawliau sifil</u> • Rhyddid Gwleidyddol: "A yw rhyddid gwleidyddol, fel rhyddid i lefaru, ymgynnull ac ymgysylltu, yn cael eu parchu yn ystod etholiadau?" (V-Dem v2x_freexp, v2caassemb) • Rhyddid gwleidyddol i bawb: "A oes gan wahanol rannau o'r
--	--	---

		boblogaeth (gan gynnwys o ran ethnigrwydd, hil, crefydd, rhywedd, rhywioldeb, ac ati) hawliau gwleidyddol llawn? (Freedom House B4) • Cydraddoldeb Pleidleiswyr: “A oes unrhyw achosion o atal a brawychu pleidleiswyr?” (V-Dem v2elintim, v2elpeace; PEI 8-1, 8-2) • Amddiffyn rhag dylanwadau allanol: “A oes mesurau diogelu digonol i atal ymyrraeth estron neu allanol yn y broses etholiadol, yn enwedig drwy ddulliau ariannol?” (Addaswyd o v2svdomaut B-Dem – “A yw’r wladwriaeth yn annibynnol ar reolaeth gwladwriaethau eraill mewn perthynas â chynnal polisi domestig?” a Freedom House B3 “A yw dewisiadau gwleidyddol y bobl yn rhydd rhag tra-arglwyddiaethu gan rymoedd sydd y tu allan i’r cylch gwleidyddol, neu gan rymoedd gwleidyddol sy’n defnyddio dulliau y tu allan i wleidyddiaeth?”) Byddai gwerthusiad arbenigol o ddemocratiaeth etholiadol yng Nghymru yn cynnwys cynnull panel amrywiol o arbenigwyr annibynnol sy’n arbenigo mewn cyfraith etholiadol, cyllid ymgyrchu, rheoleiddio’r cyfryngau, hawliau sifil a systemau etholiadol Cymru. Byddai pob arbenigwr yn asesu set o ddangosyddion wedi’u diffinio’n glir yn annibynnol, gan ddefnyddio cyfarwyddyd safonol wedi’i lywio gan fframweithiau rhyngwladol, fel V-Dem a’r Prosiect Uniondeb Etholiadol (EIP). Byddai eu gwerthusiadau’n seiliedig ar dystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys deddfwriaeth berthnasol, allbynnau rheoleiddio, cynnwys cyfryngau, a data ymgyrchoedd.
--	--	--

		Yn ogystal ag adolygiadau arbenigol, gall gwybodaeth gan ymarferwyr gynnig persbectif gwerthfawr ar sut mae prosesau etholiadol yn gweithio'n ymarferol. Yn dilyn methodoleg arfaethedig Garnett a James (2020), gellid trefnu arolwg tebyg i'r Arolwg Rheoli Etholiadau (EMS) i swyddogion etholiadol yng Nghymru, er mwyn casglu gwybodaeth ar agweddau gweithredol cyflawni etholiadau.
Cyfranogol (Ymgysylltu eang â dinasyddion, ymwybyddiaeth a chyfranogiad, yn adroddiad WCPP)	<u>Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau</u> • Canlyniadau Etholiadau Cyffredinol 2024 ○ Nifer y pleidleisiau yn ôl gwlad a rhanbarth. • Canlyniadau Etholiadau Senedd Cymru 2021 ○ Nifer y pleidleisiau yn ôl rhanbarth ac etholaeth. • Canlyniadau Etholiadau Lleol 2022 ○ Nifer y pleidleisiau yn ôl Awdurdod Lleol a Ward. • Arolwg Cenedlaethol Cymru ○ Cwestiwn: 'Yn etholiadau cyngorau lleol Cymru ym mis Mai 2022, nid oedd llawer o bobl wedi llwyddo i bleidleisio. Beth	

amdanoch chi
– wnaethoch
chi lwyddo i
bleidleisio yn
etholiadau
cynghorau lleol
Cymru?’ (2022-
23)

**Ymgysylltu â
gwleidyddiaeth ffurfiol**

- [Arolwg Cenedlaethol
Cymru](#)
 - Cwestiwn:
‘Ydych chi wedi
cysylltu â'ch
cynghorydd
lleol yn ystod y
12 mis
diwethaf, er
enghraifft,
gydag
ymholiad, cwyn
neu broblem?’
(2021-22)

**Ymgysylltu â
gwleidyddiaeth anffurfiol**

- [Astudiaeth o
Etholiadau Cymru
2016](#)
- [Adroddiad Llesiant
Cymru: Dangosyddion
cenedlaethol](#)
 - Dinasyddiaeth
fyd-eang
weithredol yng
Nghymru

**Diddordeb a gwybodaeth
wleidyddol**

- [Arolwg Cenedlaethol
Cymru](#)
 - Cwestiwn: ‘I ba
raddau ydych
chi'n cytuno
neu'n
anghytuno ...
Mae gennyf

	ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae fy nghynghorydd lleol yn ei wneud ar ran fy nghymuned leol.' (2021-22) • <u>Astudiaeth o Etholiadau Cymru</u> ○ Asesiad o wybodaeth am wleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a gwleidyddiaeth y DU yn San Steffan, wedi'i mesur ar raddfa 0-10. ○ Cyfarwydd ag enwau arweinwyr gwleidyddol.	
Cydgynghorol (cydgynghori gwleidyddol rhesymol ac adeiladol, yn adroddiad WCPP)	Ddim ar gael	Byddai dangosyddion cydgynghorol yn gofyn am ddadansoddi trafodaethau arbenigol, gan mai ansawdd y rhesymu a'r disgwrs gwleidyddol yn y maes cyhoeddus ac mewn dadleuon seneddol yw'r uned ddadansoddi. Dylai'r dangosyddion hyn fod wedi'u seilio ar ddamcaniaeth a'u croeswrio'n drylwyr i roi trosolwg diduedd o arferion gwleidyddol a strwythurau dadleuon. Yn fwy penodol: <u>Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad rhesymegol mewn dadleuon (Senedd Cymru)</u> • Eglurder Cyfiawnhau: "A yw gwleidyddion yn rhoi cyfiawnhad clir a rhesymegol dros eu safbwyntiau polisi yn ystod dadleuon?" (V-Dem v2dlreason; DQI, Lefel Cyfiawnhad) <u>Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad dros benderfyniadau</u>

		<u>sy'n apelio at les pawb (Senedd Cymru)</u> • Cyfiawnhad Polisi: “Pan fo newidiadau polisi pwysig yn cael eu hystyried, hynny yw, cyn i benderfyniad gael ei wneud, i ba raddau y mae elitau gwleidyddol yn rhoi cyfiawnhad cyhoeddus a rhesymedig dros eu safbwyntiau?” (V-Dem v2dlconstl, v2dlengage) • Apelio at Les Pawb: “A yw gwleidyddion yn cyfiawnhau eu penderfyniadau drwy gyfeirio at les pawb?” (V-Dem v2dlcommon) <u>Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru)</u> • Ymgysylltu â Gwrth-ddadleuon: “A yw gwleidyddion yn cydnabod ac yn ymgysylltu â gwrthddadleuon neu safbwyntiau amgen a gyflwynir yn ystod dadleuon?” (V-Dem v2dlcountr) • Cynrychioli Safbwyntiau Gwrthwynebus yn Deg: “A yw safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli'n deg, neu a ydynt yn cael eu hystumio neu eu camgyfleu i'w tanseilio?” (Mynegai Ansawdd Cydgynghorol (DQI), Cydraddoldeb Cyfranogi) • Dangos Parch: “A yw gwleidyddion yn ymateb i safbwyntiau croes mewn ffordd barchus, gan osgoi ymyrryd, bod yn anghyfeillgar, neu ymosodiadau ad hominem?” (DQI, Parch, Cydraddoldeb Cyfranogi) <u>Ansawdd y trafod yn y cylch cyhoeddus</u>
--	--	---

		Polisi plwraliaethol: "Sawl rhaglen lles sy'n seiliedig ar brawf modd, a sawl un sydd o fudd i bob aelod (neu bron pob aelod) o'r wladwriaeth?" (V-Dem v2dlencmps, v2dlunivl) Byddai gwerthusiad arbenigol o ddemocratiaeth gydgynghorol yng Nghymru yn cynnwys cynnull panel o arbenigwyr annibynnol sydd â chefnidir mewn cyfathrebu gwleidyddol, damcaniaeth ddemocrataidd, trafodaethau cyhoeddus, a gweithdrefnau seneddol Cymru. Er mwyn sicrhau ansawdd a heb ragfarn, dylai pob trawsgrifiad gael ei adolygu gan sawl codiwr, gyda gwiriadau dibynadwyedd rhwng codwyr ac ymarferion graddnodi'n cael eu cynnal cyn dechrau dadansoddi. Gallai trawsgrifiadau dadleuon seneddol o'r Senedd fod yn brif ffynhonnell dystiolaeth, wedi'u dadansoddi drwy ddadansoddi trafodaethau'n systematig. Dylid rhoi sylw arbennig i sut mae gwleidyddion yn fframio'r cysyniad o les pawb. Yn unol â'r diffiniad o Fynegai Ansawdd Cydgynghorol, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng apeliadau iwtilitaraidd, gan bwysleisio manteision i gymdeithas yn gyffredinol, ac apeliadau Rawlsaidd, sy'n blaenoriaethu buddiannau'r rhai lleiaf breintiedig. Dylai adolygwyr allu pwysu a mesur y gwahanol ddulliau rhesymu hyn i asesu cyfeiriadedd normadol y cydgynggori (Bächtiger et al, 2022). Gellid asesu ansawdd cydgynggori yn y byd cyhoeddus yng Nghymru drwy ddadansoddiad arbenigol o gynnwys cyfryngau, ymgynghoriadau cyhoeddus, a fforymau dinesig, gan ganolbwyntio ar ehangder, annibyniaeth a chynwysoldeb trafodaeth gyhoeddus yn ystod trafodaethau polisi allweddol. Gan ddefnyddio offer fel gwaith cloddio
--	--	--

		dadleuon, gall dadansoddwyr nodi'n systematig bresenoldeb gwrthddadleuon, strwythurau rhesymu, a chyfleoedd i fynegi ac ystyried safbwyntiau croes. <u>A yw'n ymarferol asesu disgwrs gwleidyddol heb ddadansoddiad arbenigol?</u> Mae asesu ansawdd disgwrs gwleidyddol yn aml yn dibynnu ar godio arbenigol oherwydd cymhlethdod a natur benodol i gyd-destun iaith wleidyddol. Mae arbenigwyr yn gallu dehongli strategaethau rhethregol cynnil, cynnwys symbolaidd, ac ystyron ymhlyg, a gosod datganiadau o fewn eu cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol ehangach. Dylai eu barn ddeongliadol hefyd gael ei hategu gan fframweithiau damcaniaethol a phrotocolau codio strwythuredig, er mwyn sicrhau cysondeb, dibynadwyedd a dilysrwydd yn eu gwerthusiad. Cyfeirir yn eang at ddadansoddiad arbenigol yn y llenyddiaeth fel y dull safonol ar gyfer asesiadau o'r fath. Nid yw ystadegau swyddogol ar gael ar gyfer hyn, ac nid yw polau'n ddull addas. Mae arolygon yn tueddu i gofnodi canfyddiadau arwynebol o ddisgwrs wleidyddol yn hytrach na'r ansawdd cydgynghorol gwirioneddol. Er eu bod yn adlewyrchu barn gyfunol am ymddygiad gwleidyddion, ni allant asesu'r prosesau rhyngweithiol, rhesymegol sy'n diffinio cydgynghori. Ar ben hynny, efallai nad oes gan lawer o ddinasyddion yr wybodaeth na'r wybodaeth wleidyddol sydd eu hangen arnynt i gynnig ymatebion cwbl wybodus. Mae tueddiadau samplu ac ymateb yn cyfyngu ymhellach ar
--	--	---

		ddibynadwyedd data arolwg yn y cyddestun hwn. Dim ond i ofyn i ddinasyddion yn uniongyrchol am eu canfyddiadau y gellid defnyddio arolygon, ar yr amod bod eu cyfyngiadau'n cael eu cydnabod yn glir a bod cyfrif amdanynt. Serch hynny, gellir gwneud cynnydd drwy gymhwyso dulliau dysgu dwfn newydd i awtomeiddio'r broses o ddadansoddi'r disgwrs wleidyddol. Mae sawl astudiaeth wedi archwilio'r dull hwn. Er enghraifft, defnyddiodd Bilbao-Jayo ac Almeida (2018) rwydweithiau niwral troelliadol (CNNs) aml-raddfa i nodi pynciau mewn testunau gwleidyddol yn awtomatig ar draws saith iaith, gan brofi eu model yn llwyddiannus ar negeseuon Twitter gwleidyddion Sbaen o etholiadau 2015–2016. Yn yr un modd, datblygodd Behrendt et al (2024) AQuA, sef sgôr ansawdd cydgynghorol sy'n cyfuno sawl dangosydd o ran ansawdd trafodaeth ar-lein, gan ddefnyddio modelau addasu wedi'u hyfforddi ar 20 agwedd wahanol o gydygnhori. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar y dulliau hyn. Mae'r rhan fwyaf o ddadansoddiadau'n canolbwyntio ar destun yn unig, ac yn eithrio nodweddion llafar, ac mae eu dibynadwyedd yn parhau i beri pryder. Er enghraifft, canfu Garg et al (2024), er bod modelau GPT wedi'u mireinio yn perfformio'n well na dulliau sero wrth ddadansoddi disgwrs ar gyfer dadansoddeg dysgu, eu bod yn dal yn llai dibynadwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer codio cwbl awtomataidd. Mae'n dal yn hanfodol bod pobl yn cynnal goruchwyliaeth i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd yn y tasgau hyn.
Cydraddol (Cydraddoldeb gwleidyddol,	<u>Cydraddoldeb</u> <u>ymgysylltiad gwleidyddol</u>	

cymdeithasol ac economaidd, yn adroddiad WCPP)	<u>a mynediad cyfartal at wleidyddiaeth</u> • Yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol ○ Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr. • Canlyniadau etholiadau lleol 2022 (Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin) ○ Rhywedd ymgeiswyr (etholedig). <u>Cysondeb polisi â gwahanol grwpiau cymdeithasol</u> • Astudiaeth o Etholiadau Cymru ○ Gofynnir i bobl roi eu barn ar amrywiaeth o faterion—er enghraifft, a ddylai'r llywodraeth dorri trethi a lleihau gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol, blaenoriaethu diogelu'r amgylchedd dros dwf economaidd, diddymu'r Senedd, a dychwelyd at drefniadau cyn datganoli, neu ddiogelu sofraniaeth y DU—gan	
---	--	--

	ddefnyddio graddfa o 0 i 10. Yna gofynnir iddynt roi Llafur Cymru, Plaid Geidwadol Cymru, a Phlaid Cymru ar yr un raddfa ar gyfer pob mater. Gan ddibynnu ar ba blaid sy'n llywodraethu, gellir defnyddio'r ymatebion hyn fel mesur procsi o gysondeb polisi rhwng dinasyddion a'r blaid sy'n llywodraethu. <u>Cynrychiolaeth ddemograffig gytbwys mewn llywodraeth ac ymhlith deddfwyr</u> • <u>Yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol</u> ○ Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr etholedig. • Canlyniadau Etholiadau Cymru 2021 ○ Rhywedd ymgeiswyr etholedig. • <u>Canlyniadau Etholiadau Lleol 2022</u> ○ Rhywedd ymgeiswyr etholedig.	
--	--	--

Ymatebolrwydd sefydliadol (Llywodraeth ymatebol, sy'n adlewyrchu dymuniadau ac anghenion dinasyddion, yn adroddiad WCPP)	<u>Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol</u> • <u>Arolwg Cenedlaethol Cymru</u> ○ Cwestiwn: 'Gan feddwl am Lywodraeth Cymru, pa mor fodlon ydych chi â'r ffordd y mae'n gwneud ei gwaith?' (2021-22) • <u>Astudiaeth o Etholiadau Cymru</u> ○ Cwestiwn: 'Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru.' <u>Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth</u> • <u>Arolwg Cenedlaethol Cymru</u> ○ Cwestiwn: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno... gallaf ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol.' (2021-22) • <u>Adroddiad Llesiant Cymru: Dangosyddion cenedlaethol</u>	<u>Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth (a fesurir drwy bleidlais gynrychioladol)</u> • Effeithiolrwydd gwleidyddol mewnol: Mesur hyder unigolion yn eu galluoedd eu hunain i ddeall gwleidyddiaeth a chymryd rhan yn effeithiol ynddi. Mae'r Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd (ESS) yn mesur hyn â'r cwestiynau canlynol (<u>ESS, 2025</u>): ○ "Pa mor gymwys ydych chi'n meddwl ydych chi i chwarae rhan weithredol mewn grŵp sy'n ymwneud â materion gwleidyddol?" ○ "Pa mor hyderus ydych chi yn eich gallu eich hun i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth?" • Effeithiolrwydd gwleidyddol allanol: Asesu credoau unigolion am ymatebolrwydd sefydliadau gwleidyddol i bryderon dinasyddion. Mae'r ESS yn cofnodi hyn drwy'r cwestiynau canlynol (ibid): ○ "Faint fydddech chi'n dweud mae'r system wleidyddol yn eich gwlad yn caniatáu i bobl fel chi gael dweud eu dweud am yr hyn mae'r llywodraeth yn ei wneud?" ○ "Faint fydddech chi'n dweud bod y system wleidyddol yn eich gwlad yn caniatáu i bobl fel chi gael dylanwad ar wleidyddiaeth?" <u>Cydweddu polisi â barn y cyhoedd (a fesurir drwy bleidlais gynrychioladol)</u>
---	---	--

	○ Canran yr ymatebwyr sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. <u>Ymgynghoriad y Llywodraeth â dinasgyddion a chymdeithas sifil</u> • <u>Arolwg Cenedlaethol Cymru</u> Cwestiwn: 'I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno... Mae fy nghynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda fy nghymuned leol.' (2021-22)	Gellir mesur cysondeb polisi â barn y cyhoedd drwy arolygon cynrychioladol, fel yr arolwg o <u>Agweddau Cymdeithasol Prydain (BSA)</u>, drwy ofyn i ddinasgyddion am eu dewisiadau polisi penodol a'u canfyddiadau o safbwyntiau'r llywodraeth neu'r blaid ar y polisïau hynny. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dewisiadau hyn a safbwyntiau canfyddedig yn mesur cydnawsedd. Gellir defnyddio'r bwlch rhwng dewisiadau'r cyhoedd a safbwyntiau polisi canfyddedig i fesur cydnawsedd (<u>Ares a Häusermann, 2023</u>). Yn fwy penodol, gellir archwilio cydnawsedd drwy'r cwestiynau canlynol: • Cydnawsedd â dymuniadau'r cyhoedd: "I ba raddau y mae polisïau diweddar y llywodraeth yn adlewyrchu dewisiadau'r cyhoedd yng Nghymru?" • Ymatebolrwydd dros amser: "Pan fydd barn y cyhoedd ar fater penodol yn newid, pa mor gyson mae polisi'n dilyn o fewn amserlen resymol?" • Cynrychiolaeth ar draws grwpiau: "A yw dewisiadau polisi grwpiau demograffig ac economaidd-gymdeithasol gwahanol—fel pobl ifanc, aelwydydd incwm isel, neu siaradwyr Cymraeg—yn cael eu hadlewyrchu'n gyfartal ym mhenderfyniadau'r llywodraeth?" <u>Ymgynghoriad y Llywodraeth â dinasgyddion a chymdeithas sifil (angen dadansoddiad arbenigol)</u> Gellid defnyddio fframwaith i asesu ymgynghoriad y llywodraeth â dinasgyddion a chymdeithas sifil, fel yr amlinellir yn adroddiadau'r Sefydliad Materion Cymreig ar arloesi democrataidd ac arferion gorau i
--	---	---

		Gymru (Elias et al, 2025), i asesu arloesi democrataidd a mecanweithiau cymryd rhan, gan ddilyn strwythur Participedia, sy'n archwilio uniondeb dylunio, ystyriaeth gadarn, casgliadau dylanwadol ac effeithiau hirdymor, fel a ganlyn: • Ymgysylltu sefydliadol: “I ba raddau y mae mecanweithiau fel cynullïadau dinasyddion, cyllidebu cyfranogol, neu baneli cynghori wedi'u gwreiddio mewn prosesau llunio polisïau?” • Cynwysoldeb arloesi democrataidd: “A yw mentrau cymryd rhan yn mynd ati'n systematig i gynnwys croestoriad amrywiol a chynrychioliadol o'r boblogaeth, yn arbennig grwpiau ymylol neu bobl nad ydynt yn cael eu clywed yn aml?” • Ansawdd gweithdrefnol: “A yw ymgynghoriadau'n cael eu cynnal gyda thryloywder, amcanion clir, deunyddiau hygyrch, a digon o amser i ystyried ac ymateb?” Dylanwad ar ganlyniadau: “Pa mor aml y mae prosesau neu ymgynghoriadau cydgynghorol sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion yn arwain at newidiadau y gellir eu gweld i bolisïau arfaethedig neu derfynol?”
Tryloywder a rhyddid y cyfryngau (Mynediad agored at wybodaeth gywir drwy lywodraeth dryloyw a chyfryngau cryf ac annibynnol, yn adroddiad WCPP)	Ddim ar gael	<u>Tryloywder y Llywodraeth</u> • Fframweithiau Uniondeb Strategol: “A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd?” (Addaswyd o'r Mynegai-T, dangosyddion De Jure) • Atebolrwydd wrth Lunio Polisïau: “A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr?” (Addaswyd o'r Mynegai-T,

		dangosyddion De Facto) • Trosolwg Mewnol: “A oes gan gyrff archwilio mewnol ac unedau moeseg ddigon o adnoddau a grym i weithredu ar achosion o dorri uniondeb?” (Addaswyd o'r Mynegai-T, C6: A yw adroddiad blynyddol y Sefydliad Archwilio Goruchaf ar gael i'r cyhoedd?) <u>Rhyddid y cyfryngau</u> • Annibyniaeth Olygyddol: “I ba raddau mae darparwyr cyfryngau'n rhydd i adrodd yn feirniadol ar y llywodraeth heb ofni cael eu sensro neu rywun yn dial arnynt?” (V-Dem v2mecenefm, v2mecenef, v2smgovshut, v2smgovsmalt) • Plwraliaeth Perchnogaeth a Lleisiau: “A yw perchnogaeth y cyfryngau yn ddigon amrywiol i sicrhau mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn wleidyddol? (V-Dem v2xme_altinf; Mynegai Rhyddid y Wasg C12)” • Ymyrraeth a Sensoriaeth y Llywodraeth: “A yw newyddiadurwyr yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu, ac a yw sensoriaeth wleidyddol o gynnwys yn brin neu'n absennol?” (V-Dem v2meharjrn, v2smgovsmmon) • Hunan-sensoriaeth: “A yw newyddiadurwyr yn ymatal rhag trafod pynciau sensitif oherwydd eu bod yn ofni canlyniadau cyfreithiol, gwleidyddol neu economaidd, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu gorfodi'n uniongyrchol?” (V-Dem v2meslfcen) • Rhagfarn yn y Cyfryngau: “A oes rhagfarn systematig yn y sylw yn y cyfryngau yn erbyn ymgeiswyr
--	--	--

		neu wrthbleidiau, yn enwedig o amgylch cyfnodau etholiadau?” (V-Dem v2mebias, v2mecorrpt, v2merange)
--	--	---

Atodiad B – Fframwaith Asesu Ansawdd

Er mwyn sicrhau bod y Fframwaith yn addas i asesu dangosyddion sy'n benodol i Gymru a dangosyddion sy'n cael eu casglu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd, fe wnaethom ddatblygu rhestr o feini prawf asesu ar gyfer y ddau gategori hyn (dangosyddion sy'n cael eu casglu yng Nghymru a dangosyddion nad ydynt yn cael eu casglu yng Nghymru), a'u hidlo drwy gwestiwn sgrinio.

Cwblhawyd y Fframwaith Asesu Ansawdd yn ystod y gweithdai â rhanddeiliaid ac fe'i defnyddiwyd i bennu'r rhestr derfynol o fesurau a dangosyddion fel rhan o ail rownd astudiaeth Delphi. Yn ystod y rownd hon, roedd lefel y consensws ar draws yr holl feini prawf fesul dangosydd yn pennu ei ddefnyddioldeb a'i berthnasedd mewn cyd-destun Cymreig.

Tabl 2: Fframwaith Asesu Ansawdd

Cwestiwn Sgrinio: A yw'r dangosydd eisoes yn cael ei gasglu yng Nghymru (drwy arolygon neu ystadegau swyddogol)?

Meini prawf asesu ansawdd ar gyfer dangosydd sydd eisoes yn cael ei gasglu yng Nghymru	Meini prawf asesu ansawdd ar gyfer dangosydd <u>nad</u> yw'n cael ei gasglu yng Nghymru ar hyn o bryd
A. Manlder a. Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm). b. Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol. B. Tracio Dros Amser a. Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser. C. Amllder Casglu a. Cesglir y dangosydd yn rheolaidd. b. Mae mwy na dau bwynt data ar gael. D. Cynrychioldeb y Sampl a. Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru. b. Defnyddir dulliau casglu data priodol. c. <u>Nid</u> oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys. E. Hygyrchedd Data a. Mae'r data ar gael i'r cyhoedd. b. Mae'n hawdd cael gafael ar y data. F. Cost	A. Perthnasedd a. Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yng Nghymru. B. Argaeledd a Chynrychioldeb Samplau a. Mae sampl yng Nghymru y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn. b. Mae'r sampl hon yn cynrychioli poblogaeth Cymru. C. Gwrthrychedd a. <u>Ni</u> fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn. D. Ymarferoldeb Sicrhau Ansawdd a. Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill. b. Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yng Nghymru. E. Cyfuno ag Arolygon Presennol a. Gellid cynnwys y dangosydd yn ymarferol mewn arolwg sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

- a. Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.

F. Cymaroldeb Dros Amser

- a. Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.

G. Cost Gweithredu

- a. Ni fyddai'r dangosydd yn ddrud i'w weithredu drwy arolwg sy'n bodoli eisoes yng Nghymru (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).
- b. Ni fyddai'r dangosydd yn ddrud i'w weithredu drwy arolwg pwrpasol (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).

H. Sensitifrwydd y Data

- a. Ni fyddai'r data sydd ei angen ar gyfer y dangosydd hwn yn sensitif nac yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd.

Atodiad C – Perfformiad Dangosyddion yn Rownd 2 Delphi

Mae'r atodiad hwn yn cyflwyno tablau manwl sy'n dangos perfformiad pob dangosydd yn erbyn y meini prawf asesu ansawdd. Mae'r tablau'n dangos cyfanswm cyfunol yr ymatebion "cytuno'n gryf" a "cytuno" ar gyfer pob maen prawf.

Ar gyfer dangosyddion nad ydynt ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, rhoddwyd yr opsiwn i ymatebwyr naill ai ateb o safbwynt Cymru neu o safbwynt gwlad arall. Lle cyfeiriwyd at wledydd eraill, mae'r rhain wedi'u cynnwys fel nodiadau o dan bob tabl.

Sylwch: Mae'r symbolau (++) yn cyfeirio at Gymru neu at wledydd perthnasol eraill. 'N' yw nifer yr ymatebion a gafwyd fesul dangosydd, wedi'u dadgyfuno yn ôl gwlad lle bo hynny'n berthnasol.

Perfformiad dangosyddion dimensiwn etholiadol

Tabl 3: Dangosydd Etholiadol-A: Cystadleurwydd etholiadau. A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=11)	Safbwynt gwlad arall (n=5)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	100%	80%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	100%	100%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	91%	80%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	73%	100%
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	55%	60%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	45%	60%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	36%	60%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o'r DU, Canada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Tabl 4: Dangosydd Etholiadol-B: Uniondeb etholiadau: Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio pa mor hawdd yw cymryd rhan? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=11)
---------------------------	-----------------------

Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	70%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	60%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	60%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	60%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	40%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	40%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	30%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	30%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	30%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	30%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	20%

Tabl 5: Dangosydd Etholiadol-C: Uniondeb etholiadau: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i bleidleisio mewn etholiad? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=11)
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	78%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	78%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	67%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	67%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	56%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	44%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	44%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	44%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	33%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	33%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	22%

Tabl 6: Dangosydd Etholiadol-D: Uniondeb etholiadau: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=11)
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	78%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	78%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	67%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	67%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	67%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	67%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	56%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	44%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	33%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	33%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	22%

Tabl 7: Dangosydd Etholiadol-E: Cystadleurwydd etholiadau: A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=11)	Safbwynt gwlad arall (n=5)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	75%	75%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	67%	100%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	50%	75%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	50%	75%
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	33%	50%

Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	33%	25%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	8%	75%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o Ganada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Perfformiad dangosyddion dimensiwn cyfranogol

Tabl 8: Dangosydd Cyfranogol-A: Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol): Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=10)
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	90%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	90%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	90%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	90%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	80%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	70%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	70%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	60%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	60%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	50%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	40%

Tabl 9: Dangosydd Cyfranogol-B: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=8)
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	88%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	75%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	75%

Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	75%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	75%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	75%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	75%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	63%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	63%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	50%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	25%

Tabl 10: Dangosydd Cyfranogol-C: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=11)	Safbwynt gwlad arall (n=4)
Gellid cynnwys y dangosydd yn ymarferol mewn arolwg sy'n bodoli eisoes.	82%	100%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	73%	75%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	64%	75%
Ni fyddai'r dangosydd yn ddrud i'w weithredu drwy arolwg sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).	64%	50%
Ni fyddai'r data sydd ei angen ar gyfer y dangosydd hwn yn sensitif nac yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd.	64%	50%
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	55%	50%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	55%	75%
Ni fyddai'r dangosydd yn ddrud i'w weithredu drwy arolwg pwrpasol (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).	45%	50%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	44%	75%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth ++.	36%	50%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	36%	50%

Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	27%	50%
---	-----	-----

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o Ganada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Tabl 11: Dangosydd Cyfranogol-D: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi erioed wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y cyngor? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=9)
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	56%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	56%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	56%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	44%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	44%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	44%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	33%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	33%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	33%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	33%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	33%

Tabl 12: Dangosydd Cyfranogol-E: Ymgysylltu â gwleidyddiaeth anffurfiol: Dinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=9)
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	67%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	67%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	67%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	56%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	44%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	44%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	44%

Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	44%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	44%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	44%
Nid yw'n ddud casglu na diweddarau'r dangosydd.	33%

Perfformiad dangosyddion dimensiwn cydgyngorol

Tabl 13: Dangosydd Cydgyngorol-A: Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad rhesymegol mewn dadleuon (Senedd Cymru): A yw gwleidyddion yn rhoi cyfiawnhad clir a rhesymegol dros eu safbwyntiau polisi yn ystod dadleuon? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=12)	Safbwynt gwlad arall (n=4)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	83%	100%
Mae sampl yn ++ y gallid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	58%	25%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	58%	75%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	42%	25%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	33%	75%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	9%	50%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o Ganada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Tabl 14: Dangosydd Cydgyngorol-B: Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru): A yw gwleidyddion yn cydnabod ac yn ymgysylltu â gwrthddadleuon neu safbwyntiau amgen a gyflwynir yn ystod dadleuon? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=12)	Safbwynt gwlad arall (n=4)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	75%	100%
Mae sampl yn ++ y gallid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	50%	25%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	50%	75%

Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	42%	25%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	33%	50%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	9%	50%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o Ganada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Tabl 15: Dangosydd Cydgynghorol-C: Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru): A yw safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli'n deg, neu a ydynt yn cael eu hystumio neu eu camgyfleu i'w tanseilio? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=12)	Safbwynt gwlad arall (n=4)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	83%	100%
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	42%	25%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	42%	75%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	33%	25%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	33%	100%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	9%	25%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau o Ganada, yr Almaen a'r Unol Daleithiau.

Perfformiad dangosyddion dimensiwn cydraddol

Tabl 16: Dangosydd Cydraddol-A: Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys ymhlith ymgeiswyr: Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	86%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	86%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	57%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	43%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	43%

Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	29%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	29%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	29%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	29%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	29%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddaru'r dangosydd.	29%

Tabl 17: Dangosydd Cydraddol-B: Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr: Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=6)
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	100%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	83%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	83%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	83%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	67%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	67%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	67%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	67%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	50%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddaru'r dangosydd.	50%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	33%

Perfformiad dangosyddion dimensiwn ymatebolrwydd sefydliadol

Tabl 18: Dangosydd Sefydliadol-A: Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol: Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	86%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	71%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	71%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	71%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	57%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	43%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	43%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	43%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	43%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	29%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	29%

Tabl 19: Dangosydd Sefydliadol-B: Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich cyngor/cynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=6)
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	67%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	67%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	67%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	67%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	50%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	50%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	50%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	50%
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	50%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	50%

Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	17%
--	-----

Tabl 20: Dangosydd Sefydliadol-C: Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich ardal leol? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=6)
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.	86%
Defnyddir dulliau casglu data priodol.	86%
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).	71%
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.	71%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.	71%
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.	71%
Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.	43%
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.	43%
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.	43%
Nid oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.	43%
Nid yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.	29%

Tabl 21: Dangosydd Sefydliadol-D: Ymddiriedaeth dinasyddion yn y llywodraeth. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)	Safbwynt gwlad arall (n=3)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	100%	67%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	86%	100%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	71%	67%
Gellid cynnwys y dangosydd yn ymarferol mewn arolwg sy'n bodoli eisoes.	71%	67%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	71%	100%

Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	57%	67%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth ++.	57%	33%
Ni fyddai'r data sydd ei angen ar gyfer y dangosydd hwn yn sensitif nac yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd.	57%	67%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	43%	33%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	43%	33%
Ni fyddai'r dangosydd yn ddrudd i'w weithredu drwy arolwg sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).	43%	67%
Ni fyddai'r dangosydd yn ddrudd i'w weithredu drwy arolwg pwrpasol (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).	14%	67%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill heb eu henwi.

Perfformiad dangosyddion dimensiwn tryloywder a rhyddid y cyfryngau

Tabl 22: Dangosydd Tryloywder-A: Tryloywder y Llywodraeth: A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)	Safbwynt gwlad arall (n=3)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	86%	67%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	86%	67%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	71%	0%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	57%	0%
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	43%	0%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	43%	0%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	29%	33%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill heb eu henwi.

Tabl 23: Dangosydd Tryloywder-B: Tryloywder y Llywodraeth: A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys

amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)	Safbwynt gwlad arall (n=3)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	86%	100%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	71%	100%
Mae sampl yng Nghymru y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	57%	33%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	57%	33%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	57%	67%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	29%	33%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	14%	67%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill heb eu henwi.

Tabl 24: Dangosydd Tryloywder-C: Rhyddid y cyfryngau: I ba raddau mae darparwyr cyfryngau'n rhydd i adrodd yn feirniadol ar y llywodraeth heb ofni cael eu sensro neu rywun yn dial arnynt? Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)	Safbwynt gwlad arall (n=3)
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	86%	100%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	86%	100%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	71%	100%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	71%	100%
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	43%	67%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	29%	100%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	29%	100%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill heb eu henwi.

Tabl 25: Dangosydd Tryloywder-D: Tryloywder y Llywodraeth: Ymatebolrwydd Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a chyfraddau llwyddiant. Perfformiad yn erbyn meini prawf asesu ansawdd

Meini Prawf Asesu Ansawdd	Safbwynt Cymru (N=7)	Safbwynt gwlad arall (n=3)
Mae sampl yn ++ y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.	71%	67%
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.	71%	67%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel genedlaethol.	57%	67%
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn ++ ar y lefel leol.	57%	67%
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth ++.	57%	33%
Ni fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.	57%	0%
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn ++.	57%	33%
Ni fyddai'r dangosydd yn ddrud i'w weithredu drwy arolwg sy'n bodoli eisoes (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).	57%	33%
Ni fyddai'r data sydd ei angen ar gyfer y dangosydd hwn yn sensitif nac yn codi pryderon ynghylch preifatrwydd.	43%	67%
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.	29%	0%
Gellid cynnwys y dangosydd yn ymarferol mewn arolwg sy'n bodoli eisoes.	29%	0%
Ni fyddai'r dangosydd yn ddrud i'w weithredu drwy arolwg pwrpasol (gan gynnwys dadansoddiad dilynol).	14%	33%

[SYLWCH] Mae'n cynnwys safbwyntiau gwledydd eraill o'r Unol Daleithiau a gwledydd eraill heb eu henwi.

Atodiad D – Trosolwg Dadansoddol o'r Chwe Dangosydd sydd ar y Rhestr Fer Derfynol

Isod, rydym yn cyflwyno trosolwg dadansoddol manwl o bob dangosydd sydd ar y rhestr fer, gan gynnwys y dull casglu data cyfatebol, y graddfeydd a'r mesurau. Nod y dadansoddiad hwn yw darparu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r methodolegau a'r metrigau sy'n sail i bob dangosydd.

Dangosydd 1

Cwestiwn: A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrion rhwng ymgeiswyr?

Mae asesu cystadleurwydd etholiadau yn dibynnu ar ddadansoddiad arbenigol. Ymhlith yr adnoddau cydnabyddedig a dilyn a ddefnyddir at y diben hwn mae'r set ddata V-Dem a'r mynegai PEI.

V-Dem

Daw'r elfen graidd o'r newidyn Etholiadau amlbleidiol (v2elmulpar), sy'n cael ei fesur fel a ganlyn:

Cwestiwn: A oedd yr etholiad cenedlaethol hwn yn cynnwys sawl plaid?

Ymatebion:

- 0: Nac oedd. Dim plaid, neu un blaid, ac nid oes cystadleuaeth ystyrion (mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae rhywfaint o bleidiau'n gyfreithlon, ond maent i gyd yn cael eu rheoli *de facto* gan blaid sy'n drech mewn gwirionedd).
- 1: Nac oedd, ddim felly. Dim plaid neu un blaid (a ddiffinnir fel uchod), ond mae nifer o ymgeiswyr o'r un blaid a/neu ymgeiswyr annibynnol yn brwydro am seddi deddfwriaethol neu'r llywyddiaeth.
- 2: Cyfyngedig. Mae o leiaf un wrthblaid yn cael herio, ond mae cystadleuaeth yn gyfyngedig iawn—yn gyfreithlon neu'n anffurfiol.
- 3: Bron iawn. Mae etholiadau'n amlbleidiol mewn egwyddor, ond mae naill ai un brif wrthblaid yn cael ei hatal (*de jure* neu *de facto*) rhag cystadlu, neu mae amodau fel aflonyddwch sifil (ac eithrio trychinebau naturiol) yn atal cystadleuaeth mewn rhan o'r diriogaeth.
- 4: Oedd. Mae etholiadau'n amlbleidiol, er efallai na chaniateir i rai pleidiau ymylol herio (er enghraifft, pleidiau eithafol asgell dde/chwith, pleidiau crefyddol neu ethnig gwrth-ddemocrataidd).

Graddfa: Rhestr, wedi'i throsi'n gyfyngau gan y model mesur.

Cydgasglu ar draws codwyr: Model mesur damcaniaeth ymateb i eitem Bayesaidd (gweler Methodoleg V-Dem).

O'i ddefnyddio'n fwy cynhwysfawr, gallwn lunio Mynegai Rhyddid i Ymgysylltu (argymhellir). Mae Mynegai Rhyddid i Ymgysylltu (trwchus) [v2x_frassoc_thick] yn cynnwys chwe Elfen V-Dem:

- Gwahardd plaid (v2psparban)
- Rhwystrau i bleidiau (v2psbars)
- Ymreolaeth gwrthbleidiau (v2psoppaut)
- Etholiadau amlbleidiol (v2elmulpar)
- CSO yn mynd a dod (v2cseeorgs)
- Ffrwyno CSO (v2csreprss)

Gwahardd plaid (v2psparban)

Cwestiwn: A oes unrhyw bleidiau wedi'u gwahardd? Eglurhad: Nid yw hyn yn berthnasol i bleidiau sydd wedi'u heithrio rhag cystadlu am fethu â bodloni gofynion cofrestru neu drothwyon cymorth.

Ymatebion:

- 0: Oes. Mae pob plaid ac eithrio'r blaid a noddir gan y wladwriaeth (a phleidiau cysylltiedig iawn) wedi'u gwahardd.
- 1: Oes. Nid yw etholiadau'n bleidiol, neu nid oes pleidiau sy'n cael eu cydnabod yn swyddogol.
- 2: Oes. Mae llawer o bleidiau wedi'u gwahardd.
- 3: Oes. Ond dim ond ychydig o bleidiau sydd wedi'u gwahardd.
- 4: Nac oes. Nid oes un blaid wedi'i gwahardd yn swyddogol.

Graddfa: Rhestr, wedi'i throsi'n gyfyngau gan y model mesur.

Cydgasglu ar draws codwyr: Model mesur damcaniaeth ymateb i eitem Bayesaidd (gweler Methodoleg V-Dem).

Rhwysterau i bleidiau (v2psbars)

Cwestiwn: Pa mor gyfyngol yw'r rhwystrau i ffurfio plaid? Eglurhad: Mae'r rhwystrau'n cynnwys gofynion cyfreithiol fel gofynion aelodaeth neu flaendaliadau ariannol, yn ogystal ag aflonyddu.

Ymatebion:

- 0: Ni chaniateir pleidiau.
- 1: Mae'n amhosibl, neu bron yn amhosibl, i bleidiau nad ydynt yn gysylltiedig â'r llywodraeth ffurfio (yn gyfreithiol).
- 2: Mae rhwystrau sylweddol (er enghraifft, mae arweinwyr pleidiau yn wynebu llawer o aflonyddu gwleidyddol rheolaidd gan awdurdodau).
- 3: Mae rhwystrau cymedrol (er enghraifft, mae arweinwyr pleidiau yn wynebu aflonyddu gwleidyddol achlysurol gan awdurdodau).
- 4: Nid oes dim rhwystrau sylweddol.

Graddfa: Rhestrol, wedi'i throsi'n gyfyngau gan y model mesur.

Cydgasglu ar draws codwyr: Model mesur damcaniaeth ymateb i eitem Bayesaidd (gweler Methodoleg V-Dem).

Ymreolaeth gwrthbleidiau (v2psoppaut)

Cwestiwn: A yw'r gwrthbleidiau'n ymreolaethol ac yn annibynnol ar y drefn ddyfarnu?

Eglurhad: Gwrthblaid yw unrhyw blaid nad yw'n rhan o'r llywodraeth, hynny yw, nad oes ganddi reolaeth dros y weithrediaeth.

Ymatebion:

- 0: Ni chaniateir gwrthbleidiau.
- 1: Nid oes gwrthbleidiau annibynnol, ymreolaethol. Mae'r gwrthbleidiau naill ai'n cael eu dethol neu eu cyfethol gan y drefn reoli.
- 2: Mae rhai gwrthbleidiau yn ymreolaethol ac yn annibynnol ar drefn reoli, o leiaf.
- 3: Mae'r rhan fwyaf o'r gwrthbleidiau arwyddocaol yn ymreolaethol ac yn annibynnol ar y drefn reoli.
- 4: Mae'r holl wrthbleidiau'n ymreolaethol ac yn annibynnol ar y drefn reoli.

Graddfa: Rhestrol, wedi'i throsi'n gyfyngau gan y model mesur.

Cydgasglu ar draws codwyr: Model mesur damcaniaeth ymateb i eitem Bayesaidd (gweler Methodoleg V-Dem).

Etholiadau amlbleidiol (v2elmulpar)

Fel y trafodwyd uchod.

CSO yn mynd a dod (v2cseeorgs)

Cwestiwn: I ba raddau y mae'r llywodraeth yn sicrhau rheolaeth dros sut mae Mudiadau Cymdeithas Sifil (CSOs) yn mynd a dod i fywyd cyhoeddus?

Ymatebion:

- 0: Rheolaeth fonopolistig. Mae gan y llywodraeth fonopoli penodol dros CSOs. Yr unig fudiadau sy'n cael cymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol, fel cymeradwyo pleidiau neu wleidyddion, noddi fforymau materion cyhoeddus, trefnu ralïau neu brotestiadau, cymryd rhan mewn streiciau, neu wneud sylwadau cyhoeddus ar swyddogion a pholisïau cyhoeddus, yw mudiadau sy'n cael eu noddi gan y llywodraeth. Mae'r llywodraeth yn mynd ati i ffrwyno'r rhai sy'n ceisio herio ei monopoli ar weithgarwch gwleidyddol.
- 1: Rheolaeth sylweddol. Mae'r llywodraeth yn trwyddedu pob CSO ac yn defnyddio meini prawf gwleidyddol i wahardd mudiadau sy'n debygol o wrthwynebu'r llywodraeth. Mae o leiaf rhai mudiadau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion sy'n chwarae rôl gyfyngedig mewn gwleidyddiaeth sy'n annibynnol ar y llywodraeth. Mae'r llywodraeth yn ffrwyno'r rhai sy'n ceisio diystyru ei meini prawf gwleidyddol ac yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol.

- 2: Rheolaeth gymedrol. Boed y llywodraeth yn gwahardd CSOs annibynnol yn rhannol neu'n llawn, mae rhai mudiadau gwaharddedig yn llwyddo i chwarae rôl weleidyddol weithredol. Er gwaethaf ei gwaharddiad ar fudiadau o'r math hwn, nid yw'r llywodraeth yn eu ffrwyno, neu ni all eu ffrwyno, naill ai oherwydd ei gwendid neu hwylustod gwleidyddol.
- 3: Ychydig iawn o reolaeth. Boed y llywodraeth yn trwyddedu CSOs neu beidio, ceir darpariaethau cyfansoddiadol sy'n caniatáu i'r llywodraeth wahardd sefydliadau neu fudiadau sydd â hanes o weithredu gwrth-ddemocrataidd yn y gorffennol (er enghraifft, gwahardd mudiadau neo-ffasgaidd neu gomiwnyddol yng Ngweriniaeth Ffederal yr Almaen). Mae gwaharddiad o'r fath yn digwydd o dan reolau caeth y gyfraith ac amodau annibyniaeth farnwrol.
- 4: Digyfngiad. Boed y llywodraeth yn trwyddedu CSOs neu beidio, nid yw'r llywodraeth yn eu rhwystro rhag cael eu ffurfio a'u gweithredu oni bai eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ddymchwel y llywodraeth yn chwyrn.

Graddfa: Rhestr, wedi'i throsi'n gyfyngau gan y model mesur.

Cydgasglu ar draws codwyr: Model mesur damcaniaeth ymateb i eitem Bayesaidd (gweler Methodoleg V-Dem).

Ffrwyno CSO (v2csreprss)

Cwestiwn: A yw'r llywodraeth yn ceisio ffrwyno CSOs?

Ymatebion:

- 0: Yn ddifrifol. Mae'r llywodraeth yn mynd ar drywydd pob aelod go iawn a hyd yn oed rhai aelodau tybiedig o CSOs mewn modd chwyrn a gweithredol. Maent yn ceisio atal gweithgarwch grwpiau o'r fath yn ogystal â'u diddymu i bob pwrpas. Mae enghreifftiau'n cynnwys y Natsïaid yn yr Almaen, Stalinyddion Rwsia, a Maöyddion Tsieina.
- 1: Yn sylweddol. Yn ogystal â'r mathau o aflonyddu a amlinellir yn ymatebion 2 a 3 isod, mae'r llywodraeth hefyd yn arestio, yn profi ac yn carcharu arweinwyr a chyfranogwyr mewn CSOs gwrthryfelgar sydd wedi gweithredu'n gyfreithlon. Mae sancsiynau eraill yn cynnwys tarfu ar gynulladau cyhoeddus a sancsiynau chwyrn ar weithredwyr (curo, bygwth teuluoedd, dinistrio eiddo gwerthfawr). Mae enghreifftiau'n cynnwys: Zimbabwe o dan Mugabe, Gwlad Pwyl o dan Gyfraith Rhyfel, a Serbia o dan Milosevic.
- 2: Yn gymedrol. Yn ogystal â'r sancsiynau perthnasol a amlinellir yn ymateb 3 isod, mae'r llywodraeth hefyd yn cymryd rhan mewn mân achosion o aflonyddu cyfreithiol (cadw'n gaeth, carcharu yn y tymor byr) i gymell CSOs i beidio â gweithredu neu fynegi eu hunain. Gall y llywodraeth hefyd gyfyngu ar gwmpas eu gweithredoedd trwy fesurau sy'n cyfyngu ar gysylltiad CSOs â'i gilydd neu bleidiau gwleidyddol, yn atal CSOs rhag cymryd camau penodol, neu'n rhwystro cysylltiadau rhyngwladol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyfraith ôl-Ryfel Gwlad Pwyl, Brasil ar ddechrau'r 1980au, a chyfnod olaf Franco yn Sbaen.

- 3: Yn wan. Mae'r llywodraeth yn defnyddio sancsiynau sylweddol (dirwyon, diswyddo, gwrthod gwasanaethau cymdeithasol) i atal CSOs gwrthwynebol rhag gweithredu neu fynegi eu hunain. Gallant hefyd ddefnyddio gweithdrefnau cofrestru neu ymgorffori beichus i arafu'r broses o ffurfio mudiadau cymdeithas sifil newydd a'u hatal rhag ymgysylltu. Gall y llywodraeth hefyd drefnu Cyrff Anllywodraethol a Drefnwyd gan y Llywodraeth (GONGOs) i wthio mudiadau annibynnol allan. Un enghraifft fyddai Singapore yn y cyfnod ar ôl Yew neu Rwsia o dan Putin.
- 4: Na. Mae CSOs yn rhydd i drefnu, ymgysylltu, streicio, mynegi eu hunain, a beirniadu'r llywodraeth heb ofni cosbau neu aflonyddu gan y llywodraeth.

Graddfa: Rhestr, wedi'i throsi'n gyfyngau gan y model mesur.

Cydgasglu ar draws codwyr: Model mesur damcaniaeth ymateb i eitem Bayesaidd (gweler Methodoleg V-Dem).

PEI

Daw'r set ddata o arolwg treigl o 5,605 o asesiadau arbenigol o uniondeb etholiadau ar draws 643 o etholiadau mewn 170 o wledydd ledled y byd. Mae'r astudiaeth gronnus yn ymdrin ag etholiadau seneddol ac arlywyddol cenedlaethol rhwng 1 Gorffennaf 2012 a 7 Rhagfyr 2024.

Diffinnir arbenigwr yn yr arolwg hwn fel gwyddonydd gwleidyddiaeth (neu wyddonydd cymdeithas mewn disgyblaeth gysylltiedig, fel y gyfraith, cymdeithaseg, economeg, anthropoleg, mathemateg, neu ystadegau) sydd wedi cyhoeddi ar (neu sydd wedi dangos gwybodaeth arall am) y broses etholiadol mewn gwlad benodol. Yn benodol, diffinnir gwybodaeth a ddangosir gan y meini prawf canlynol: (1) aelodaeth o grŵp ymchwil perthnasol, rhwydwaith proffesiynol, neu adran wedi'i threfnu o grŵp o'r fath; (2) cyhoeddiadau presennol ar bynciau etholiadol neu bynciau eraill sy'n benodol i wlad mewn llyfrau, cyfnodolion academaidd, neu bapurau cynhadledd; a/neu (3) cyflogaeth mewn prifysgol neu goleg fel athro. Cysylltwyd ag o leiaf 40 o arbenigwyr o bob gwlad (lle bo hynny ar gael) ar gyfer pob etholiad, gan gynnwys arbenigwyr domestig a rhyngwladol.

Cafodd achosion â llai na dau ymateb i'r arolwg eu gollwng o'r set ddata fel na fyddai unrhyw sgoriau mynegai yn dibynnu ar un arbenigwr yn unig.

Daw'r elfen graidd o'r newidyn Dewis (8_4), sy'n cael ei fesur fel a ganlyn:

Cwestiwn/Datganiad: Cafodd pleidleiswyr ddewis go iawn yn y blwch pleidleisio:

Opsiynau:

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Cytuno
- Cytuno'n gryf
- Ddim yn gwybod

- Ddim yn berthnasol

Gellir cysylltu sawl newidyn ychwanegol yn yr holiadur PEI i lunio dangosyddion cysylltiedig. Fodd bynnag, yn swyddogol, defnyddir y cwestiwn uchod dim ond i fesur yr egwyddor cydgyngori, sy'n cwmpasu mynediad at wybodaeth, argaeledd dewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr, ac ansawdd cyffredinol y cydgyngori.

Dangosydd 2

Cwestiwn: Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol

Mesur: % nifer y pleidleiswyr ym mhob etholiad, sef cyfran y pleidleiswyr cymwys sydd yn bwrw pleidlais mewn gwirionedd, ar sail cofnodion swyddogol.

Ffynhonnell: Cofrestrau swyddogol. Data sydd ar gael ar gyfer Cymru:

- Etholiadau Cyffredinol: <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-10009/>
- Etholiadau'r Senedd: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/etholiad-2021-faint-o-bobl-bleidleisiodd/>
- Etholiadau Lleol: <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/ein-hadroddiadau-a-data-ar-etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru>

Dangosydd 3

Cwestiwn: Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem?

Opsiynau ymateb:

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn gwybod (yn ddigymell yn unig)

Ffynhonnell: Mae'r cwestiwn arolwg uchod wedi'i gynnwys yn [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) (Cam Olaf: [2021-2022](#)).

Mesur: % y dinasyddion sydd wedi ymateb "Ydw".

Dangosydd 4

Cwestiwn: Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr: nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig.

Ffynonellau:

- Arolwg Ymgeiswyr Lleol: Proffil ymgeiswyr etholedig lleol:
<https://www.llyw.cymru/arolwg-ymgeiswyr-llywodraeth-leol-2022>
- Cofrestrau swyddogol: Proffil ymgeiswyr etholedig y Senedd:
<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9282/>

Mesur:

- Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr etholedig lleol.
- Rhywedd ac ethnigrwydd ymgeiswyr etholedig y Senedd.

Dangosydd 5

Cwestiwn: Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru?

Opsionau ymateb:

- Bodlon iawn
- Eithaf bodlon
- Eithaf anfodlon
- Anfodlon iawn
- Ddim yn gwybod

Ffynhonnell: Astudiaeth o Etholiadau Cymru, 2019:

<https://beta.ukdataservice.ac.uk/datacatalogue/studies/study?id=8774#!/details>

Amcangyfrif o'r mesur: % y dinasyddion bodlon (iawn+eithaf).

Dangosydd 6

Cwestiwn: A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr?

Mae'r dull hwn yn defnyddio'r fethodoleg Mynegai-T ar gyfer asesu tryloywder, gan ddefnyddio'r [Mynegai Canfyddiadau o Lygredigaeth](#) yn benodol. Mae'r mesur yn seiliedig ar 14 o gwestiynau wedi'u codio gan arbenigwyr. Cyflwynir yr holiadur isod (14 pwynt wedi'u cyfuno drwyddo draw, sy'n golygu tryloywder llwyr a 0 diffyg tryloywder llwyr):

C1: A yw gwariant cyhoeddus y gorffennol yn cael ei gyhoeddi ar-lein? (1 pwynt)

- Mae adroddiad gwariant y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gael ar-lein ar ei ffurf fanwl = 1
- Mae adroddiad gwariant y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gael ar-lein gyda rhywfaint o fanylion yn unig = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein neu'n rhy gyffredinol (data cyfanredol yn unig) = 0

Sylwch: Ystyrir bod adroddiadau gwariant yn gwbl fanwl os ydynt yn cael eu dadgyfuno o leiaf yn ôl gweithrediad A gwrthrych gwariant, gan alluogi dinasyddion i ddeall sut cafodd arian ei wario ac nid dim ond faint o arian gafodd ei wario mewn maes penodol. Ystyrir mai

manyllion cyfyngedig sydd gan adroddiadau os cânt eu dadgyfuno mewn ffurfiau eraill ond nid yn ôl gwrthrych gwariant. Mae'r amserlen ar gyfer dadansoddi yn defnyddio'r un meini prawf â'r Arolwg Cyllideb Agored, ac ystyrir bod adrodd ar y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn amserol pan fydd gwybodaeth ar gael o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol.

C2: A yw gwariant cyhoeddus cyfredol yn cael ei gyhoeddi ar-lein? (1 pwynt)

- Mae data ar gael drwy system olrhain ar-lein gyda gwariant manwl (er enghraifft, peiriant copïo) = 1
- Mae data ar gael drwy system olrhain ar-lein nad yw'n rhestru'n fanwl NEU drwy adroddiadau gweithredu cyllideb cymharol fanwl = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein neu'n rhy gyffredinol (data cyfanredol yn unig) = 0

Sylwch: Ystyrir bod adroddiadau'n weddol fanwl pan fyddant yn cynnwys data wedi'i ddadgyfuno yn ôl gweithrediad A gwrthrych gwariant. Dylai gwariant cyhoeddus cyfredol gael ei gyhoeddi ar-lein o fewn chwe mis fan bellaf i wlad sgorio yn y cwestiwn hwn.

C3: A oes porth caffael cyhoeddus canolog lle mae tendrau a dyfarniadau contract yn cael eu postio? (1 pwynt)

- Caiff galwadau am gynigion a hysbysiadau dyfarnu eu cyhoeddi = 1
- Dim ond ceisiadau am gynigion neu hysbysiadau dyfarnu sy'n cael eu cyhoeddi = 0.5
- Nid oes porth caffael yn bodoli, neu mae'r wybodaeth a gyhoeddir yn fach iawn (gweithdrefnau dethol yn unig) = 0

Sylwch: Mae sgôr lawn yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau dyfarnu gynnwys enw'r enillydd a gwerth y contract o leiaf.

C4: A oes stent am dir ar-lein lle datgelir perchnogaeth eiddo? (1 pwynt)

- Mae data stent ar gael yn llawn ar-lein = 1
- Mae data stent ar gael yn rhannol, neu'n gyfyngedig o ran cwmipas daearyddol, neu mae angen talu am fynediad ato = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein = 0

C5: A oes cofrestr fasnach lle cyhoeddir cyfranddalwyr a phrif ddata cwmnïau? (1 pwynt)

- Mae'r gofrestrfa fusnes ar gael yn llawn ac am ddim ar-lein = 1
 - Gydag 1 pwynt, hefyd pan fydd y gofrestr yn cael ei rhedeg gan gwmni preifat.
- Mae'r wybodaeth yn rhannol, neu mae gofyn talu am fynediad at wybodaeth berthnasol = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein = 0

C6: A yw adroddiad blynyddol y Sefydliad Archwilio Goruchaf yn cael ei bostio'n gyhoeddus? (1 pwynt)

- Mae'r adroddiad blynyddol ar gael ar-lein gyda gwybodaeth fanwl am ganlyniadau archwiliadau unigol = 1

- Mae achosion lle nad yw'r adroddiad yn gynhwysfawr, ond mae'n hawdd cael gafael ar bob adroddiad unigol, yn cael pwynt llawn hefyd.
- Mae'r adroddiad blynyddol yn cynnwys gwybodaeth am archwiliadau dethol (ac nid yw canlyniadau archwiliadau ar gael mewn mannau eraill) = 0.5
- Nid oes adroddiad (presennol) ar gael ar-lein = 0

C7: A yw amserlenni gwrandawiadau'r goruchaf lys ar gael yn gyhoeddus ac ar-lein? (1 pwynt)

- Mae holl wybodaeth y llys ar gael ar-lein = 1
- Nid yw pob gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus, nid yw achosion sy'n wleidyddol sensitif ar gael = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein = 0

Sylwch: Ar gyfer gwledydd lle mae mwy nag un uwch lys yn bodoli, y llys sy'n cael ei ystyried yr uchaf yw'r llys apêl. Ystyrir bod y rhestr yn gyhoeddus pan gaiff ei chyhoeddi o leiaf ddiwrnod cyn sesiwn y llys. Os yw dyddiadau dyfarnu'n cael eu rhoi ar sail achos yn unig (nid oes rhestr lawn ar gael), y sgôr yw 0.5 pwynt. Os ceir gwybodaeth am ddyddiadau sesiynau'r llys, ond heb restru'r achosion y penderfynir arnynt, ystyrir nad yw'r wybodaeth yn ddigonol, a'r sgôr yw 0.

C8: A yw dedfrydau'r goruchaf lys yn cael eu cyhoeddi ar-lein? (1 pwynt)

- Pob dedfryd llys ar gael ar-lein = 1
- Nid yw pob gwybodaeth ar gael yn gyhoeddus, nid yw achosion sy'n wleidyddol sensitif ar gael = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein = 0

Sylwch: Ar gyfer gwledydd lle mae mwy nag un uwch lys yn bodoli, y llys sy'n cael ei ystyried yr uchaf yw'r llys apêl. Ystyrir bod dedfrydau'n cael eu cyhoeddi pan fydd eu rhesymeg/cyfiawnhad wedi'u nodi hefyd. Rhoddir pwynt llawn hefyd os yw dedfrydau'n weladwy wrth chwilio am achosion mynediad cyhoeddus.

C9: A yw datgeliadau ariannol swyddogion ar gael i'r cyhoedd ar-lein? (1 pwynt)

- Ar gael ar gyfer yr holl swyddogion y mae'n ofynnol iddynt ddatgan = 1
- Ar gael dim ond ar gyfer rhai o'r swyddogion y mae'n ofynnol iddynt ddatgan (er enghraifft, uwch swyddogion) = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein (neu dim ond ar gais) = 0

C10: A yw datgeliadau gwrthdaro buddiannau swyddogion ar gael i'r cyhoedd ar-lein? (1 pwynt)

- Ar gael ar gyfer yr holl swyddogion y mae'n ofynnol iddynt ddatgan = 1
- Ar gael dim ond ar gyfer rhai o'r swyddogion y mae'n ofynnol iddynt ddatgan (er enghraifft, uwch swyddogion) = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein (neu dim ond ar gais) = 0

Sylwch: Mewn achosion lle nad oes angen datgelu buddiant penodol ond bod gwybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn y datgeliadau ariannol (er enghraifft, cyfranddaliadau mewn cwmnïau, datgeliadau ariannol perthnasau) AC mae'r rheini'n gyhoeddus, ystyrir bod y meini prawf ar gyfer y cwestiwn hwn hefyd wedi'u bodloni.

C11: A yw dyraniadau sy'n dod i mewn ac allan o gronfa rhoddwyr yn cael eu cyhoeddi? (1 pwynt)

- Mae arian sy'n dod i mewn neu allan gan roddwyr (neu'r ddau, pryd bynnag y bo hynny'n berthnasol) ar gael = 1
- Dim ond arian sy'n dod i mewn neu allan gan roddwyr sydd ar gael mewn sefyllfa lle dylai'r ddau fod = 0.5
 - Rhoddir hanner pwynt hefyd os yw'r wybodaeth yn rhannol.
- Ddim ar gael ar-lein = 0

Sylwch: Mae sgôr lawn yn mynnu bod dyraniadau cymorth yn nodi symiau sydd wedi'u dadgyfuno o leiaf yn ôl gwlad y rhoddwr/derbynnnydd.

C12: A yw consesiynau mwyngloddio yn cael eu postio'n gyhoeddus? (1 pwynt)

- Mae gwybodaeth lawn am drwyddedau/teitlau/consesiynau mwyngloddio ar gael = 1
- Mae gwybodaeth am drwyddedau/teitlau/consesiynau mwyngloddio ar gael yn rhannol, neu telir am fynediad = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein = 0

Sylwch: Mae sgôr lawn yn mynnu bod data ar gonsesiynau mwyngloddio yn nodi lleoliad, buddiolwr ac amserlen y consesiwn o leiaf. Mae achosion lle mae'r wybodaeth ar gael ond nad yw'n gwbl gyfredol yn cael 0.5 pwynt – o ystyried amserlen hir arferol consesiynau mwyngloddio, mae'r wybodaeth yn dal i gael ei hystyried yn berthnasol i'r cyhoedd.

C13: A yw trwyddedau adeiladu ym mhrifddinas y wlad yn cael eu postio'n gyhoeddus? (1 pwynt)

- Mae gwybodaeth lawn am y trwyddedau adeiladu a roddwyd ar gael = 1
- Mae gwybodaeth am y trwyddedau adeiladu a roddwyd ar gael yn rhannol, neu telir am fynediad ati = 0.5
- Ddim ar gael ar-lein = 0

Sylwch: Rhoddir sgôr lawn pan fydd cyfeiriad ac enw'r ymgeisydd yn cael eu cyhoeddi o leiaf. Rhag ofn bod porth electronig ar gyfer gwneud cais am drwyddedau adeiladu, ond nad yw'n cyhoeddi'r trwyddedau a ddyfarnwyd, ystyrir bod yr wybodaeth yn annigonol, a'r sgôr yw sero.

C14: A oes rhestr ar-lein neu borth gan y llywodraeth sy'n cyhoeddi'r holl ddeddfwriaeth swyddogol i bawb gael fynediad ati? (1 pwynt)

- Oes = 1
- Oes, ond telir am fynediad ati, neu darperir yr wybodaeth yn rhannol yn unig = 0.5
- Nac oes = 0

Atodiad E – Adnoddau Ymchwil

Canllaw trafod ar gyfer y gweithdai cychwynnol i arbenigwyr

Rhagbaratoi (3 munud; Cronnol: 8 munud)

1. Er mwyn i bawb ddod i adnabod ei gilydd, a fyddai pawb yn fodlon cyflwyno eu hunain yn gryno, gan ddweud beth yw eu henw, eu swydd, a'u cyfrifoldebau proffesiynol?

Rhan 1: Mesurau a dangosyddion sy'n ymwneud ag iechyd democrataidd

Cyflwyniad (10 munud; Cronnol: 18 munud)

- Cefndir polisi – 5 munud
- Trosolwg o bob dimensiwn – 5 munud

Trafodaeth (60 munud; Cronnol: 78 munud)

Byddwn yn dechrau gyda'r dimensiynau cydgynghorol, mynediad at wybodaeth ac ymatebolrwydd sefydliadol, gan mai'r rhain yw'r rhai mwyaf amwys. Ond byddwn hefyd yn ymdrin yn gryno â'r tri dimensiwn sy'n weddill ar ôl hynny.

1. **BETH I'W DDIYSTYRU:** Yn eich barn chi, pa rai o'r rhain sy'n llai effeithiol o ran mesur iechyd democratiaeth yng Nghymru, a pham?
 - a. *Awgrym A:* A oes unrhyw ddangosyddion a fyddai'n heriol i'w gweithredu yng nghyd-destun Cymru? – er enghraifft oherwydd goblygiadau cost, daearyddiaeth, arbenigedd presennol, logisteg ac ati.
 - b. *Awgrym B:* A oes unrhyw ddangosyddion na fyddent yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru? Pam hynny?
2. **BETH I'W FLAENORIAETHU:** O'r dangosyddion sy'n weddill, pa rai ddylai gael blaenoriaeth yn eich barn chi, a pham?
 - a. *Awgrym A:* Allech chi ddewis tri o'r rhestr (hynny yw, fesul dimensiwn, ond lle darperir nifer o opsiynau o fewn is-gategoriâu, gwnewch yn siŵr bod rhai ar y rhestr fer), sy'n gallu bod yn fwyaf effeithiol o ran mesur iechyd democrataidd yng Nghymru, ac esbonio pam?
 - b. *Awgrym B:* Yn eich barn chi, i ba raddau y mae'r blaenoriaethau arfaethedig yn cyd-fynd â blaenoriaethau dinasyddion Cymru mewn perthynas ag iechyd democrataidd?
3. **BETH I'W YCHWANEGU:** A oes unrhyw ddangosyddion eraill nad ydynt ar y rhestr, ac y credwch y dylid eu cynnwys?

- a. *Awgrym*: A yw'r dangosyddion canlynol yn cwmpasu pob rhan o [enw'r dimensiwn]? A oes unrhyw beth arall ar goll o ran [enw'r dimensiwn], a fydd yn golygu na ellir mesur iechyd democrataidd yn gynhwysfawr?

Rhan 2: Asesu mesurau a dangosyddion

Trafodaeth (10 munud; Cronnol: 88 munud)

[Nodiadau i'r hwylusydd: rhannwch y Fframwaith Asesu Ansawdd ar y sgrin]

4. **BETH I'W YCHWANEGU**: A oes unrhyw ystyriaethau ar goll?
 - a. *Cwestiwn dilynol*: A ddylid ychwanegu unrhyw beth at y meini prawf asesu i'n helpu i werthuso a all dangosydd fesur iechyd democrataidd yn effeithiol yng Nghymru yn benodol?
5. **BETH I'W FLAENORIAETHU**: A oes unrhyw feini prawf asesu sy'n sefyll allan i chi fel y rhai pwysicaf, neu o leiaf y rhai pwysicaf nag eraill?
 - a. *Awgrym*: Pe bai'n rhaid i chi lunio rhestr fer o dri maen prawf asesu o'r rhestr Oes a thri o'r rhestr Nac oes, pa rai fyddai'r rhain?
6. **BETH I'W DDIYSTYRU**: A oes unrhyw feini prawf asesu y byddech chi'n eu tynnu oddi ar bob rhestr? Os felly, pam?

Dirwyn i ben (2 funud; Cronnol: 90 munud)

7. Oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill cyn i ni ddirwyn y gweithdy i ben?

Holiadur rownd 1 Delphi - sgript

Gwybodaeth am gyfranogwr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ein helpu i ddeall y gydberthynas bosibl rhwng eich maes gwaith/arbenigedd a'r safbwyntiau a fynegir. Dim ond gwybodaeth am sector eich swydd ac o bosibl y wlad lle rydych chi'n gweithio y byddwn ni'n gofyn amdani. Rydym yn deall y gall eich profiad gwmpasu sawl sector, felly atebwch lle mae gennych chi'r mwyaf o brofiad.

1. Ym mha sector ydych chi'n gweithio?
 - Y byd academiaidd/ymchwil
 - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
 - Cymru
 - Lloegr
 - Yr Alban
 - Gogledd Iwerddon
 - Y tu allan i'r DU
 - Enw'r wlad lle rydych chi'n gweithio: (blwch testun)
 - Y sector cyhoeddus

- Ym mha is-sector ydych chi'n gweithio?
 - Llywodraeth/Gwasanaeth Sifil
 - Corff Rheoleiddio/Goruchwyllo
 - [Ar gyfer y ddau opsiwn]
 - Polisi a llywodraethiant
 - Ymchwil
 - Arall (blwch testun)
- Plaid wleidyddol
- Cyrff anllywodraethol, melinau trafod a mudiadau trydydd sector
 - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
 - Cymru
 - Lloegr
 - Yr Alban
 - Gogledd Iwerddon
 - Y tu allan i'r DU
 - Enw'r wlad lle rydych chi'n gweithio: (blwch testun)
- Arall (blwch testun)

Dulliau i fesur iechyd democrataidd

Mae gwaith ymchwil blaenorol (<https://wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/7600/>) wedi nodi chwe dimensiwn allweddol o iechyd democrataidd sy'n cyfleu gwahanol agweddau ar sut mae democratiaeth yn gweithredu yn ymarferol. Amlinellir y rhain drwy gydol yr holiadur, ynghyd â rhestr hir o ddangosyddion a/neu ffyrdd o fesur democratiaeth ar gyfer pob dimensiwn.

Mae'r dangosyddion rydym yn eu hawgrymu naill ai'n dod o ddata gweinyddol ac arolwg presennol sydd ar gael yng Nghymru neu drwy addasu mesurau rhyngwladol iechyd democrataidd sydd wedi'u sefydlu:

- **Amrywiaethau o Ddemocratiaeth (V-Dem):** Mae'n darparu mynegeion manwl ar sawl dimensiwn o ddemocratiaeth, fel uniondeb etholiadol, hawliau sifil, cyfranogiad gwleidyddol, cydgynghori cyhoeddus, a chydraddoldeb. Mae'n defnyddio asesiadau arbenigol a data hanesyddol i adlewyrchu cymhlethdod llawn systemau democrataidd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://www.v-dem.net/>
- **Canfyddiadau o Uniondeb Etholiadol (PEI):** Darparu asesiadau arbenigol o ba mor dda mae etholiadau'n bodloni safonau rhyngwladol uniondeb etholiadol, gan ymdrin ag agweddau fel gweithdrefnau etholiadol, cofrestru pleidleiswyr, amgylchedd ymgyrchoedd, a chanlyniadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://www.electoralintegrityproject.com/pei>
- **Mynegai Ansawdd Disgwrs:** Mesur nodweddion sylweddol trafodion cyhoeddus, fel parch at safbwyntiau amrywiol, defnyddio tystiolaeth a chyfiawnhad, yn ogystal ag atgyrchedd, drwy godio araith seneddol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://link.springer.com/article/10.1057/palgrave.cep.6110002>
- **Mynegai Tryloywder y Llywodraeth (Mynegai-T):** Asesu pa mor agored yw'r llywodraeth drwy feini prawf fel datgelu dogfennau'n rhagweithiol, eglurder gweithdrefnau Rhyddid Gwybodaeth, ac ymatebolrwydd i geisiadau am wybodaeth,

gan alluogi cymharu ar draws awdurdodaethau ac amser. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://www.againstcorruption.eu/ercas-projects/transparencyindex/>

Yn ogystal, rydym wedi cynnwys rhai dangosyddion roedd arbenigwyr wedi'u hawgrymu'n uniongyrchol ar ôl mynychu cyfres o weithdai cyn yr astudiaeth hon, i fod yn sail bellach i'r rhestr o ddangosyddion a gyflwynir yma.

Ar gyfer pob un o'r chwe dimensiwn allweddol ar gyfer iechyd democrataidd, gofynnir i chi restru'r dangosyddion o'r *mwyaf priodol* (ar frig y rhestr) i'r *lleiaf priodol* (ar waelod y rhestr) ar gyfer mesur iechyd democrataidd yng Nghymru yn benodol.

Sut mae gwneud hyn? Pan fyddwch chi'n hofran dros yr opsiynau, dylech weld saethau i fyny ac i lawr. Cliciwch y saeth i fyny os hoffech chi symud yr opsiwn hwn i fyny safle, a'r saeth i lawr os hoffech chi ei symud i lawr safle. Neu, gallwch lusgo a gollwng pob opsiwn yn y drefn o'ch dewis.

Yn y cyd-destun hwn, gofynnwn i chi bennu lefel yr 'addasrwydd' drwy ystyried pa mor effeithlon y gall pob dangosydd fesur y dimensiwn a nodir (hynny yw, a yw'n hysbys bod y dangosydd yn darparu mesurau cywir/dibynadwy, a yw'n addas i'r cyd-destun yng Nghymru, ac ati).

Byddwch yn gallu ychwanegu unrhyw sylwadau, meddyliau neu ystyriaethau yr hoffech i ni eu hystyried ochr yn ochr â'ch safle ar ddiwedd pob dimensiwn.

Peidiwch ag ystyried ymarferoldeb defnyddio'r dangosyddion yng nghyd-destun Cymru ar hyn o bryd, gan y bydd hyn yn cael sylw yn ail rownd astudiaeth Delphi, lle byddwn yn sgrinio'r dangosyddion sydd ar y rhestr fer yn erbyn meini prawf y Fframwaith Asesu Ansawdd, sy'n cael ei greu'n benodol at ddibenion datblygu set o fesurau a dangosyddion i olrhain, monitro ac asesu gwahanol gydrannau democratiaeth yng Nghymru.

Sylwch: Darperir yr holl opsiynau o dan bob dimensiwn mewn trefn ar hap.

Democratiaeth etholiadol

Mae democratiaeth etholiadol yn agwedd graidd ar iechyd democrataidd, yn asesu tegwch, hygyrchedd a chystadleurwydd etholiadau. Mae'n archwilio a all pob dinesydd bleidleisio'n rhydd, a yw etholiadau'n dryloyw ac yn adlewyrchu ewyllys yr etholwyr, ac a yw swyddogion etholedig yn atebol ac yn ymatebol.

Mae'r adran hon yn cynnwys dangosyddion sydd ar gael yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Rhestrwch y dangosyddion canlynol o'r mwyaf priodol (ar frig y rhestr) i'r lleiaf priodol (ar waelod y rhestr) ar gyfer democratiaeth etholiadol yng Nghymru.

- **Uniondeb etholiadau:** Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i bleidleisio mewn etholiad? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Hyderus iawn; Eithaf hyderus; Ddim yn hyderus iawn; Ddim yn hyderus o gwbl; Ddim yn gwybod. *(o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, sy'n cael eu gofyn ledled y DU, ond gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru) / Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod chi'n gwybod sut i fynd ati i gofrestru i*

bleidleisio? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Hyderus iawn; Eithaf hyderus; Ddim yn hyderus iawn; Ddim yn hyderus o gwbl; Ddim yn gwybod. (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, a ofynnir ledled y DU, ond gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)

- **Uniondeb etholiadau:** Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Hyderus iawn; Eithaf hyderus; Ddim yn hyderus iawn; Ddim yn hyderus o gwbl; Ddim yn gwybod. (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, a ofynnir ledled y DU, ond gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)
- **Uniondeb etholiadau:** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r system o gofrestru i bleidleisio ym Mhrydain Fawr? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Bodlon iawn; Eithaf bodlon; Eithaf anfodlon; Anfodlon iawn; Ddim yn gwybod/dim barn. (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)
- **Uniondeb etholiadau:** I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r datganiad canlynol? "Rwy'n credu bod y pleidleisiau'n cael eu cyfrif yn gywir mewn etholiadau ym Mhrydain Fawr." – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod. (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)
- **Uniondeb etholiadau:** A yw'r pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n colli yn derbyn canlyniad yr etholiad cenedlaethol hwn? A oedd gweithdrefnau effeithiol i ddinasyddion wneud cwynion am y broses etholiadol? (o V-Dem)
- **Uniondeb etholiadau:** Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio pa mor hawdd yw cymryd rhan? Hyd yn oed os nad ydych chi erioed wedi pleidleisio, meddylwch pa mor hawdd neu anodd fyddai hynny yn eich barn chi – wedi'i fesur ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 = 'Ddim yn hawdd o gwbl' a 5 = 'hawdd iawn.' (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, a ofynnir ledled y DU, ond gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)
- **Uniondeb etholiadau:** Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio diogelwch pleidleisio? Hyd yn oed os nad ydych chi erioed wedi pleidleisio, meddylwch pa mor ddiogel neu beidio fyddai hynny yn eich barn chi – wedi'i fesur ar raddfa o 1 i 5 lle mae 1 = 'Ddim yn ddiogel o gwbl' a 5 = 'Diogel iawn.' (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, a ofynnir ledled y DU, ond gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)
- **Cystadleurwydd etholiadau:** A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr? (o V-Dem)

- **Cystadleurwydd etholiadau:** A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd? (o V-Dem)
- **Cystadleurwydd etholiadau:** Sut mae rheolau cyllid ymgyrchoedd yn cael eu gorfodi, ac a ydynt yn caniatáu ar gyfer cystadleuaeth deg? (o V-Dem)
- **Cystadleurwydd etholiadol:** Gan feddwl am gyllido ymgyrchwyr a phleidiau gwleidyddol, pa mor agored a thryloyw yw'r wybodaeth am hyn yn eich barn chi? – wedi'i fesur ar raddfa o 0 i 10 lle mae 0 = ddim yn dryloyw, 10 = Cwbl dryloyw. (o'r Comisiwn Etholiadol: Cwestiynau barn gyhoeddus, a ofynnir ledled y DU, ond gyda sampl ddigonol i'w hadrodd ar gyfer Cymru)

Sylwadau dewisol

- Hoffech chi egluro neu ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer y safleoedd rydych chi wedi'u dewis (er enghraifft, lle mae dau neu fwy o ddangosyddion rydych chi wedi'u graddio o'r un gwerth neu bwysigrwydd i chi)?

(blwch testun)

- A oes unrhyw ddangosyddion allweddol ar goll o'r rhestr? Os felly, pa rai?

(blwch testun)

Democratiaeth gyfranogol

Mae democratiaeth gyfranogol yn canolbwyntio ar ddinasyddion yn cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau y tu hwnt i bleidleisio. Mae'n cynnwys gweithgareddau gwleidyddol ffurfiol (er enghraifft, cysylltu â chynrychiolwyr, ymuno â phleidiau) a gweithredoedd anffurfiol (er enghraifft, protestio, deisebu).

Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ystod o fesurau a dangosyddion sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Rhestrwch y dangosyddion canlynol o'r mwyaf priodol (ar frig y rhestr) i'r lleiaf priodol (ar waelod y rhestr) ar gyfer mesur democratiaeth gyfranogol yng Nghymru.

- **Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol):** Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol (o ganlyniadau'r etholiad Cyffredinol, Senedd Cymru ac etholiadau Lleol yn y drefn honno)
- **Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau [Senedd/Lleol] (agwedd):** Fel y gwyddoch efallai, cynhaliwyd etholiadau ar [dyddiad etholiad diweddaraf y Senedd]. Yn aml, rydym yn gweld nad oedd llawer o bobl yn gallu pleidleisio oherwydd eu bod yn sâl, nad oedd ganddynt yr amser, neu nad oedd ganddynt ddiddordeb. Beth amdanoch chi - wnaethoch chi lwyddo i bleidleisio? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Do; Naddo; Ddim yn gwybod (o'r Comisiwn Etholiadol: Arolwg ar ôl yr etholiad)/Yn etholiadau cynghorau lleol Cymru [dyddiad yr etholiad]

diwethaf], nid oedd llawer o bobl wedi llwyddo i bleidleisio. Beth amdanoch chi – wnaethoch chi lwyddo i bleidleisio yn etholiadau cyngorau lleol Cymru? (o Arolwg Cenedlaethol Cymru)

- **Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (agwedd):** Yn etholiadau cyngorau lleol Cymru [dyddiad yr etholiad diweddaraf], nid oedd llawer o bobl wedi llwyddo i bleidleisio. Beth amdanoch chi – wnaethoch chi lwyddo i bleidleisio yn etholiadau cyngorau lleol Cymru? (o Arolwg Cenedlaethol Cymru)
- **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi wedi cysylltu â'ch cyngorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? (o Arolwg Cenedlaethol Cymru)/Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? (awgrym arbenigol ychwanegol)
- **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? (awgrym arbenigol ychwanegol)
- **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi erioed wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y cyngor? (o Data Cymru)
- **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth anffurfiol:** Dinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru (o Lesiant Cymru: Dangosyddion cenedlaethol)
- **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** I ba raddau y mae gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae eich cyngorydd lleol yn ei wneud ar ran eich cymuned leol? (wedi'i aralleirio o Arolwg Cenedlaethol Cymru)
- **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** Asesiad o wybodaeth am wleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a gwleidyddiaeth y DU yn San Steffan, wedi'i mesur ar raddfa 0-10. (o Astudiaeth o Etholiadau Cymru)
- **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** Pa un o'r datganiadau hyn sy'n disgrifio orau eich agwedd tuag at bleidleisio mewn etholiadau Cyffredinol/ etholiadau'r Senedd/etholiadau cyngorau lleol? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Byddaf bob amser yn pleidleisio; byddaf yn pleidleisio weithiau; ni fyddaf byth yn pleidleisio; nid wyf wedi bod yn gymwys i bleidleisio yn y gorffennol. (o'r Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd)
- **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol (Etholiadau'r Senedd):** Gan feddwl am yr etholiad(au) ar [dyddiad etholiad diweddaraf y Senedd], yn gyffredinol, faint, os o gwbl, oeddech chi'n teimlo yr oeddech chi'n ei wybod am yr etholiad(au) yn eich ardal? – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Llawer iawn; Rhywfaint; Dim llawer; Roeddwn i'n gwybod ei fod yn digwydd ond nid oeddwn yn gwybod unrhyw beth amdano; Nid oeddwn yn gwybod ei fod yn digwydd; Ddim yn gwybod. (o'r Comisiwn Etholiadol: Arolwg ar ôl yr etholiad)/I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? "Roedd gen i ddigon o wybodaeth am

ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.” – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod. (o'r Comisiwn Etholiadol: Arolwg ar ôl yr etholiad)

- **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol (Ymgeiswyr):** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? “Roedd gen i ddigon o wybodaeth am ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.” – Dyma'r opsiynau i ddewis o'u plith: Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod. (o'r Comisiwn Etholiadol: Arolwg ar ôl yr etholiad)
- **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** Faint o effaith y mae gwleidyddiaeth y DU yn ei chael neu faint o wahaniaeth mae'n ei gwneud i'ch bywyd bob dydd yn eich barn chi? (o'r Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd)

Sylwadau dewisol

- Hoffech chi egluro neu ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer y safleoedd rydych wedi'u dewis (er enghraifft, lle mae dau neu fwy o ddangosyddion rydych chi wedi'u graddio o'r un gwerth neu bwysigrwydd i chi)?

(blwch testun)

- A oes dangosyddion allweddol ar goll o'r rhestr? Os felly, beth?

(blwch testun)

Democratiaeth gydgynghorol

Mae democratiaeth gydgynghorol yn canolbwyntio ar ansawdd trafodaeth wleidyddol, gwerthfawrogi trafodaeth wybodus, barchus a rhesymegol yn hytrach nad dim ond cymryd rhan. Mae'n gofyn am benderfyniadau sy'n seiliedig ar werthoedd cyffredin a rhesymu cyhoeddus, gyda'r nod o gryfhau cyfreithlondeb democrataidd drwy ystyried safbwyntiau amrywiol yn feddylgar.

Nid oes dangosyddion sy'n mesur hyn yng Nghymru ar hyn o bryd; felly, rydym wedi casglu'r dangosyddion a ddefnyddir yn rhyngwladol ac a argymhellir gan arbenigwyr. Rhestrwch y dangosyddion canlynol o'r mwyaf priodol (ar frig y rhestr) i'r lleiaf priodol (ar waelod y rhestr) ar gyfer mesur democratiaeth gydgynghorol yng Nghymru.

- **Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad rhesymegol mewn dadleuon (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn rhoi cyfiawnhad clir a rhesymegol dros eu safbwyntiau polisi yn ystod dadleuon? (o V-Dem)
- **Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad dros benderfyniadau sy'n apelio at les pawb (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn cyfiawnhau eu penderfyniadau drwy gyfeirio at les pawb? (o V-Dem)

- **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn cydnabod ac yn ymgysylltu â gwrthddadleuon neu safbwyntiau amgen a gyflwynir yn ystod dadleuon? *(o V-Dem)*
- **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli'n deg, neu a ydynt yn cael eu hystumio neu eu camgyfleu i'w tanseilio? *(o'r Mynegai Ansawdd Disgwrs)*
- **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn ymateb i safbwyntiau croes mewn ffordd barchus, gan osgoi ymyrryd, bod yn anghyfeillgar, neu ymosodiadau *ad hominem*? *(o'r Mynegai Ansawdd Disgwrs)*
- **Ansawdd y trafod yn y cylch cyhoeddus:** Sawl rhaglen lles sy'n seiliedig ar brawf modd, a sawl un sydd o fudd i bob aelod (neu bron pob aelod) o'r wladwriaeth? *(o V-Dem)*

Sylwadau dewisol

- Mae'r dangosyddion ar gyfiawnhau a gwrthddadleuon/gwrthwynebwyr uchod yn egluro bod data ar y rhain wedi'u cyfyngu i Senedd Cymru, gan fod y dangosyddion hyn i fod i archwilio lleferydd sefydliadol, tra gall hefyd fod yn heriol monitro cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal ar draws cynghorau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn croesawu unrhyw syniadau neu awgrymiadau sydd gennych ynghylch ehangu'r dangosyddion hyn i fonitro llywodraeth leol hefyd.

(blwch testun)

- Hoffech chi egluro neu ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer y safleoedd rydych wedi'u dewis (er enghraifft, lle mae dau neu fwy o ddangosyddion rydych chi wedi'u graddio o'r un gwerth neu bwysigrwydd i chi)?

(blwch testun)

- A oes dangosyddion allweddol ar goll o'r rhestr? Os felly, beth?

(blwch testun)

Democratiaeth gydraddol

Mae democratiaeth gydraddol yn pwysleisio mynediad cyfartal at gyfranogiad a chynrychiolaeth wleidyddol. Mae'n asesu a all pob dinesydd, gan gynnwys grwpiau ymylol, gymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol ac a yw demograffeg amrywiol yn cael ei chynrychioli'n deg wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ystod o fesurau a dangosyddion sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Rhestrwch y dangosyddion canlynol o'r mwyaf priodol (ar frig y

rhestr) i'r lleiaf priodol (ar waelod y rhestr) ar gyfer mesur democratiaeth gydraddol yng Nghymru.

- **Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys ymhlith ymgeiswyr:** nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr (o Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol ac Arolwg Amrywiaeth Ymgeiswyr y Senedd).
- **Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr:** nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig (o ganlyniadau etholiadau lleol a chanlyniadau Etholiadau Cymru).
- **Sut mae polisïau yn cyd-fynd ag amrywiol grwpiau cymdeithasol:** Gofynnir i bobl roi eu barn ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys a ddylai'r llywodraeth dorri trethi a lleihau gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol, blaenoriaethu diogelu'r amgylchedd dros dwf economaidd, diddymu'r Senedd, a dychwelyd at drefniadau cyn datganoli, neu ddiogelu sofraniaeth y DU (gan ddefnyddio graddfa o 0 i 10). Yna gofynnir iddynt roi Llafur Cymru, Plaid Geidwadol Cymru, a Phlaid Cymru ar yr un raddfa ar gyfer pob mater. Gan ddibynnu ar ba blaid sy'n llywodraethu, gellir defnyddio'r ymatebion hyn fel *mesur procsi* o gysondeb polisi rhwng dinasyddion a'r blaid sy'n llywodraethu (o *Astudiaeth o Etholiadau Cymru*).

Sylwadau dewisol

- Hoffech chi egluro neu ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer y safleoedd rydych wedi'u dewis (er enghraifft, lle mae dau neu fwy o ddangosyddion rydych chi wedi'u graddio o'r un gwerth neu bwysigrwydd i chi)?

(blwch testun)

- A oes dangosyddion allweddol ar goll o'r rhestr? Os felly, beth?

(blwch testun)

Ymatebolrwydd sefydliadol

Mae ymatebolrwydd sefydliadol yn mesur pa mor effeithiol y mae sefydliadau gwleidyddol yn ymateb i anghenion a phryderon dinasyddion. Mae'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, ymgorffori mewnbwn dinasyddion, ac effeithiolrwydd gwleidyddol, sef y gred y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau; felly, mae'n dangos a yw dinasyddion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynrychioli wrth i bolisïau gael eu llunio.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar yr ystod o fesurau a dangosyddion sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Rhestrwch y dangosyddion canlynol o'r mwyaf priodol (ar frig y rhestr) i'r lleiaf priodol (ar waelod y rhestr) ar gyfer mesur ymatebolrwydd sefydliadol yng Nghymru.

- **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** Pa mor fodlon ydych chi â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith? (*wedi'i aralleirio o Arolwg Cenedlaethol Cymru*)
- **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru? (*o Astudiaeth o Etholiadau Cymru*)
- **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y bobl sy'n ennill etholiadau ac sy'n gyfrifol am y wlad yn poeni am bobl fel chi? (*o'r Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr - Cymru*)
- **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** I ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich cyngor/cynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol? (*o'r Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr - Cymru*)
- **Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich ardal leol (*wedi'i aralleirio o Arolwg Cenedlaethol Cymru; Llesiant Cymru: Dangosyddion cenedlaethol*)
- **Ymgynghoriad y Llywodraeth â dinasyddion a chymdeithas sifil:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'ch cymuned leol (*wedi'i aralleirio o Arolwg Cenedlaethol Cymru*)
- **Cysondeb polisïau â barn gyhoeddus:** I ba raddau y mae polisïau diweddar y llywodraeth yn adlewyrchu dewisiadau'r cyhoedd yng Nghymru? (*wedi'i aralleirio o Arolwg o Agweddau Cymdeithasol Prydain*)

Sylwadau dewisol

- Hoffech chi egluro neu ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer y safleoedd rydych chi wedi'u dewis (er enghraifft, lle mae dau neu fwy o ddangosyddion rydych chi wedi'u graddio o'r un gwerth neu bwysigrwydd i chi)?

(blwch testun)

- A oes dangosyddion allweddol ar goll o'r rhestr? Os felly, beth?

(blwch testun)

Mynediad at wybodaeth

Mae rhyddid gwybodaeth yn cefnogi iechyd democrataidd drwy hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd. Mae'n cynnwys mynediad y cyhoedd at wybodaeth swyddogol, llunio polisïau agored, a mesurau diogelu ar gyfer newyddiaduraeth annibynnol, gan alluogi craffu a thrafodaeth wybodus sy'n cryfhau swyddogaethau democrataidd eraill.

Ychydig iawn o ddangosyddion sy'n mesur hyn yng Nghymru ar hyn o bryd; felly, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ddangosyddion a ddefnyddir yn rhyngwladol ac a argymhellir gan arbenigwyr. Rhestrwch y dangosyddion canlynol o'r mwyaf priodol (ar frig y rhestr) i'r lleiaf priodol (ar waelod y rhestr) ar gyfer mesur mynediad at wybodaeth yng Nghymru.

- **Tryloywder y Llywodraeth:** A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd? *(wedi'i addasu o'r Mynegai-T)*
- **Tryloywder y Llywodraeth:** A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr? *(wedi'i addasu o'r Mynegai-T)*
- **Tryloywder y Llywodraeth:** A oes gan gyrff archwilio mewnol ac unedau moeseg ddigon o adnoddau a grym i weithredu ar achosion o dorri uniondeb? *(wedi'i addasu o'r Mynegai-T)*
- **Tryloywder y Llywodraeth:** Ymatebolrwydd Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a chyfraddau llwyddiant. *(awgrym arbenigol ychwanegol)*
- **Tryloywder y Llywodraeth:** Yn gyffredinol, faint o wybodaeth ydych chi'n meddwl mae eich cyngor/cynghorau lleol yn ei rhoi i breswylwyr am y gwasanaethau a'r manteision mae'n eu darparu? *(o'r Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr - Cymru)*
- **Rhyddid y cyfryngau:** I ba raddau mae darparwyr cyfryngau'n rhydd i adrodd yn feirniadol ar y llywodraeth heb ofni cael eu sensro neu rywun yn dial arnynt? *(o V-Dem)*
- **Rhyddid y cyfryngau:** A yw perchnogaeth y cyfryngau yn ddigon amrywiol i sicrhau mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn wleidyddol? *(o V-Dem)*
- **Rhyddid y cyfryngau:** A yw newyddiadurwyr yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu, ac a yw sensoriaeth wleidyddol o gynnwys yn brin neu'n absennol? *(o V-Dem)*/A yw newyddiadurwyr yn ymatal rhag trafod pynciau sensitif oherwydd eu bod yn ofni canlyniadau cyfreithiol, gwleidyddol neu economaidd, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu gorfodi'n uniongyrchol? *(o V-Dem)*
- **Rhyddid y cyfryngau:** A yw newyddiadurwyr yn ymatal rhag trafod pynciau sensitif oherwydd eu bod yn ofni canlyniadau cyfreithiol, gwleidyddol neu economaidd, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu gorfodi'n uniongyrchol? *(o V-Dem)*
- **Rhyddid y cyfryngau:** A oes rhagfarn systematig yn y sylw yn y cyfryngau yn erbyn ymgeiswyr neu wrthbleidiau, yn enwedig o amgylch cyfnodau etholiadau? *(o V-Dem)*

- **Canfyddiadau'r cyhoedd:** Sawl gwaith yr wythnos ydych chi'n sylwi bod y Senedd yn cael ei chrybwyll yn y cyfryngau (prif ffrwd a chymdeithasol) yng Nghymru a'r DU? (*wedi'i aralleirio yn dilyn awgrym ychwanegol gan arbenigwr*)

Sylwadau dewisol

- Hoffech chi egluro neu ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer y safleoedd rydych chi wedi'u dewis (er enghraifft, lle mae dau neu fwy o ddangosyddion rydych chi wedi'u graddio o'r un gwerth neu bwysigrwydd i chi)?

(blwch testun)

- A oes dangosyddion allweddol ar goll o'r rhestr? Os felly, beth?

(blwch testun)

Myfyrion ar bob dimensiwn (cwestiynau dewisol)

Gan eich bod bellach wedi rhestru'r dangosyddion a ddarparwyd ym mhob dimensiwn yn ôl eu trefn, hoffem eich gwahodd i fyfyrion ar y chwe dimensiwn eu hunain (etholiadol, cyfranogol, cydgynghorol, cydraddol, ymatebolrwydd sefydliadol, a mynediad at wybodaeth).

- A ydych chi'n credu bod y set hon o chwe dimensiwn yn cyfleu democratiaeth yng Nghymru i bob pwrpas?

(blwch testun)

- A ydych chi'n credu bod unrhyw un o'r chwe dimensiwn hyn yn fwy hanfodol er mwyn gallu olrhain, monitro ac asesu gwahanol elfennau democratiaeth yng Nghymru?

(blwch testun)

- A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ychwanegu am unrhyw un o'r dimensiynau neu'r dangosyddion a gyflwynwyd?

(blwch testun)

Heriau (mae pob cwestiwn yn yr adran hon yn orfodol)

Daw'r dangosyddion a gyflwynir yn yr holiadur hwn o dair ffynhonnell ddata ategol:

1. **Polau:** Arolygon barn y cyhoedd sy'n holi dinasyddion yn uniongyrchol am eu hagweddau a'u hymddygiadau gwleidyddol.
2. **Ystadegau Swydddogol:** Cofnodion gweinyddol sy'n cael eu casglu'n rheolaidd, fel rhestrau cofrestru pleidleiswyr, ffigurau'r nifer sy'n pleidleisio, sy'n cael eu cynnal gan gyrff etholiadol ac asiantaethau'r llywodraeth.
3. **Dadansoddiad arbenigol:** Arbenigwyr pwnc yn codio ffenomenau gwleidyddol yn systematig (er enghraifft, uniondeb etholiadau, rhyddid y cyfryngau).

Mae pob un o'r ffynonellau hynny'n cynnig gwybodaeth a heriau unigryw. Yn yr adran olaf hon o rownd gyntaf astudiaeth Delphi, byddem yn croesawu eich barn arbenigol ar bob ffynhonnell. Atebwch y cwestiwn isod ar gyfer pob un, gan nodi unrhyw heriau rydych chi'n eu rhagweld ac awgrymiadau ar gyfer gwella. Os ydych yn teimlo nad oes gennych yr arbenigedd i ateb un neu fwy o'r cwestiynau canlynol, neu os byddai'n well gennych beidio ag ymateb, dewiswch yr opsiwn perthnasol i nodi hynny.

Polau: Sut gall polau ddod yn fwy cynhwysol er mwyn gallu casglu safbwyntiau pobl nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth (fel pobl nad ydynt wedi cofrestru i bleidleisio, cymunedau ymylol, ac ati) drwy'r dull hwn?

A hoffech chi ateb y cwestiwn hwn?

- Hoffwn
 - (blwch testun)
- Na hoffwn
- Nid wyf yn teimlo bod gen i'r arbenigedd i wneud hynny

Ystadegau swyddogol: Pa weithdrefnau ar gyfer gwella cywirdeb, cysondeb a phrydlondeb dangosyddion gweinyddol fydddech chi'n eu hargymell?

A hoffech chi ateb y cwestiwn hwn?

- Hoffwn
 - (blwch testun)
- Na hoffwn
- Nid wyf yn teimlo bod gen i'r arbenigedd i wneud hynny

Dadansoddiad arbenigol: Pa fesurau diogelu sy'n ymwneud â dewis, hyfforddi a chyfuno arbenigol sydd fwyaf effeithiol yn eich barn chi o ran lleihau rhagfarn a sicrhau cymaroldeb dros amser wrth godio dangosyddion democrataidd?

A hoffech chi ateb y cwestiwn hwn?

- Hoffwn
 - (blwch testun)
- Na hoffwn
- Nid wyf yn teimlo bod gen i'r arbenigedd i wneud hynny

Holiadur 2 Delphi - sgript

Gwybodaeth am gyfranogwr

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ein helpu i ddeall y gydberthynas bosibl rhwng eich maes gwaith/arbenigedd a'r safbwyntiau a fynegir. Dim ond gwybodaeth am sector eich swydd ac o bosibl y wlad lle rydych chi'n gweithio y byddwn ni'n gofyn amdani. Rydym yn deall y gall eich profiad gwmpasu sawl sector, felly atebwch lle mae gennych chi'r mwyaf o brofiad.

2. Ym mha sector ydych chi'n gweithio?

- Y byd academiaidd/ymchwil
 - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
 - Cymru
 - Lloegr
 - Yr Alban
 - Gogledd Iwerddon
 - Y tu allan i'r DU
 - Enw'r wlad lle rydych chi'n gweithio: (blwch testun)
- Y sector cyhoeddus
 - Ym mha is-sector ydych chi'n gweithio?
 - Llywodraeth/Gwasanaeth Sifil
 - Corff Rheoleiddio/Goruchwyllo
 - [Ar gyfer y ddau opsiwn]
 - Polisi a llywodraethiant
 - Ymchwil
 - Arall (blwch testun)
- Plaid wleidyddol
- Cyrff anllywodraethol, melinau trafod a mudiadau trydydd sector
 - Ym mha wlad ydych chi'n gweithio?
 - Cymru
 - Lloegr
 - Yr Alban
 - Gogledd Iwerddon
 - Y tu allan i'r DU
 - Enw'r wlad lle rydych chi'n gweithio: (blwch testun)
- Arall (blwch testun)

Rhan 1

Democratiaeth etholiadol

Mae democratiaeth etholiadol yn agwedd graidd ar iechyd democrataidd, yn asesu tegwch, hygyrchedd a chystadleurwydd etholiadau. Mae'n archwilio a all pob dinesydd bleidleisio'n rhydd, a yw etholiadau'n dryloyw ac yn adlewyrchu ewyllys yr etholwyr, ac a yw swyddogion etholedig yn atebol ac yn ymatebol.

1. Cystadleurwydd etholiadau: A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod?

O ran cyd-destun, mesurir y dangosydd hwn drwy ddadansoddiad arbenigol ac **nid** yw ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n seiliedig ar ddangosydd aml-bleidiau mewn etholiad V-Dem (v2elmulpar): <https://www.v-dem.net/>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd]

Mae'r cwestiynau a ofynnir isod yn benodol ar gyfer y dangosydd hwn yn canolbwyntio ar ymarferoldeb cyflwyno hyn yng Nghymru. A hoffech chi fwrw ymlaen â'r cwestiynau hyn sy'n benodol i Gymru, neu a hoffech chi ateb y cwestiynau gan ddefnyddio safbwynt/enghraifft o wlad arall?

- Ateb y cwestiynau sy'n benodol i Gymru (cyfeiriwch at opsiwn A).
- Ateb y cwestiynau o safbwynt gwlad arall.
 - Pa wlad sydd gennych mewn golwg i ateb y cwestiynau hyn? (blwch testun agored)
 - (cyfeiriwch at opsiwn B)

[Opsiwn A - tabl llai ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd a dadansoddiad arbenigol (pob datganiad yn orfodol)]

Datganiad	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yng Nghymru ar y lefel genedlaethol .					
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol					

democratiaeth yng Nghymru ar y lefel leol .					
Mae sampl yng Nghymru y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.					
<u>Ni</u> fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.					
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.					
Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yng Nghymru.					
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.					

[Opsiwn B - tabl llai ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd a dadansoddiad arbenigol (datganiadau dewisol)]

Datganiad	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn <i>[y wlad a ddewiswyd]</i> ar y lefel genedlaethol .					
Mae'r dangosydd yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yn <i>[y wlad a ddewiswyd]</i> ar y lefel leol .					
Mae sampl yn <i>[y wlad a ddewiswyd]</i> y gellid ei defnyddio i gasglu'r data hwn.					
<u>Ni</u> fyddai'r dangosydd yn destun rhagfarn.					
Aseswyd ansawdd y dangosydd mewn cyd-destunau eraill.					

Mae'n ymarferol cynnal asesiad ansawdd ar gyfer y dangosydd hwn yn [y wlad a ddewiswyd].					
Gellid olrhain y dangosydd yn gyson dros amser.					

2. Uniondeb etholiadau: Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio pa mor hawdd yw cymryd rhan? Hyd yn oed os nad ydych chi erioed wedi pleidleisio, meddyliwch pa mor hawdd neu anodd fyddai hynny yn eich barn chi.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, **mae**'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/agweddaur-cyhoedd/agweddaur-cyhoedd-2025>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd presennol]

Rydym yn deall efallai na fydd eich arbenigedd yn benodol i Gymru, ac felly efallai na fyddwch yn gallu ateb y cwestiynau sy'n berthnasol i'r dangosydd hwn.

Hoffech chi ateb yn benodol i'r cyd-destun yng Nghymru neu ddarparu arbenigedd mwy cyffredinol?

- Cyd-destun Cymru (cyfeiriwch at opsiwn A)
- Arbenigedd mwy cyffredinol (cyfeiriwch at opsiwn B)

[Opsiwn A - tabl llawn ar gyfer dangosydd sydd ar gael ar hyn o bryd (pob datganiad yn orfodol)]

Datganiad	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae'r dangosydd wedi'i ddadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol (er enghraifft, daearyddiaeth, oedran, rhywedd, incwm).					
Mae'r lefel hon o ddadgyfuno yn ddigonol.					

Mae'r dangosydd wedi cael ei gasglu'n gyson dros amser.					
Cesglir y dangosydd yn rheolaidd.					
Mae mwy na dau bwynt data ar gael.					
Mae'r sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru.					
Defnyddir dulliau casglu data priodol.					
<u>Nid</u> oes unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.					
Mae'r data ar gael i'r cyhoedd.					
Mae'n hawdd cael gafael ar y data.					
<u>Nid</u> yw'n ddrud casglu na diweddarau'r dangosydd.					

[Opsiw'n B ar gyfer y dangosydd presennol (dewisol)]

A oes unrhyw ystyriaethau allweddol y byddech yn eu gwneud wrth brofi neu asesu ansawdd y dangosydd hwn? (er enghraifft manylder ac amllder y data perthnasol a gesglir, pa mor gynrychioliadol yw'r sampl, hygyrchedd data, gwrthrychedd, cost gweithredu, ac ati.)

(blwch testun)

3. Uniondeb etholiadau: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i bleidleisio mewn etholiad?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, **mae**'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/agweddaur-cyhoedd/agweddaur-cyhoedd-2025>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd presennol]

[AILADRODD Opsiwn A - tabl llawn ar gyfer dangosydd presennol (pob datganiad yn orfodol)]

[AILADRODD Opsiwn B ar gyfer dangosydd presennol (dewisol)]

4. Uniondeb etholiadau: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, **mae**'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/agweddaur-cyhoedd/agweddaur-cyhoedd-2025>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd presennol]

[AILADRODD Opsiwn A - tabl llawn ar gyfer dangosydd presennol (pob datganiad yn orfodol)]

[AILADRODD Opsiwn B ar gyfer dangosydd presennol (dewisol)]

5. Cystadleurwydd etholiadau: A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, mesurir y dangosydd hwn drwy ddadansoddiad arbenigol ac **nid** yw ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n seiliedig ar ddangosyddion ymgyrchu a mynediad i'r cyfryngau Rhinweddau Etholiadau V-Dem (v2eldonate, v2elfrcampv, 2elpdcamp, v2elpaidig): <https://www.v-dem.net/>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd]

[AILADRODD Opsiwn A - tabl llai ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd a dadansoddiad arbenigol (pob datganiad yn orfodol)]

[AILADRODD Opsiwn B - tabl llai ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd a dadansoddiad arbenigol (datganiadau dewisol)]

Myfyrdodau (dewisol)

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ar eich sgoriau, neu a hoffech ddarparu unrhyw gafeatau ar gyfer eich atebion?

(blwch testun)

Democratiaeth gyfranogol

Mae democratiaeth gyfranogol yn canolbwyntio ar ddinasyddion yn cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau y tu hwnt i bleidleisio. Mae'n cynnwys gweithgareddau gwleidyddol ffurfiol (er enghraifft, cysylltu â chynrychiolwyr, ymuno â phleidiau) a gweithredoedd anffurfiol (er enghraifft, protestio, deisebu).

7. Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol): Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, **mae**'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Etholiadau Cyffredinol:

<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-10009/>

Etholiadau'r Senedd: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/etholiad-2021-faint-o-bobl-bleidleisiodd/>

Etholiadau Lleol: <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/ymchwil-adroddiadau-a-data/ein-hadroddiadau-a-data-ar-etholiadau-a-refferenda-yn-y-gorffennol/adroddiad-ar-etholiadau-mis-mai-2022-yng-nghymru>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd presennol]

[AILADRODD Opsiwn A - tabl llawn ar gyfer dangosydd presennol (pob datganiad yn orfodol)]

[AILADRODD Opsiwn B ar gyfer dangosydd presennol (dewisol)]

8. Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu problem?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, **mae**'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau>

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd presennol]

[AILADRODD Opsiwn A - tabl llawn ar gyfer dangosydd presennol (pob datganiad yn orfodol)]

[AILADRODD Opsiwn B ar gyfer dangosydd presennol (dewisol)]

9. Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu problem?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch y dangosydd penodol a restrir uchod? O ran cyd-destun, **nid** yw'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd.

[Cwestiynau sgrinio ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd]

[Opsiwn A - tabl llawn ar gyfer dangosydd nad yw ar gael ar hyn o bryd (pob datganiad yn orfodol)]

Datganiad	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

			nac yn anghytuno		
